

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Rhagor o gamau yn yr awyr agored

## Canllawiau







chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

# Rhagor o gamau yn yr awyr agored

**Cynulleidfa**
Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, ac ymarferwyr a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; cyrff cenedlaethol yng Nghymru â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn darparu cyngor a chanllawiau ar wneud y gorau o gyfleoedd dysgu a chwarae yn yr awyr agored bob dydd.

**Camau i'w cymryd**
Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:
Tîm y Blynyddoedd Cynnar
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost:
earlyyears@cymru.gsi.gov.uk neu foundationphaseinfo@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn
www.learning.wales.gov.uk/resources/?lang=cy

**Dogfennau cysylltiedig**
*Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* (2008);
*Y Cyfnod Sylfaen - Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored* (2009);
*Y camau cyntaf yn yr awyr agored* (Llywodraeth Cymru a Learning through Landscapes Cymru, 2010).

ISBN digidol 978 1 4734 2275 9
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21941

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 3

**Cynllunio ar gyfer dysgu a chwarae yn yr awyr agored bob dydd** 4

**Chwarae yn yr awyr agored** 7

**Arsylwi** 9
- Cofnodi arsylwadau 9
- Astudiaeth achos 11

**Arwain gwaith dysgu yn yr awyr agored** 12
- Cydnabod gwerth chwarae yn yr awyr agored 12
- Monitro a gwerthuso 13
- Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) staff 13
- Polisi chwarae yn yr awyr agored 13
- Rheoli adnoddau a chyllidebau 14
- Cynnwys rhieni 15
- Astudiaeth achos 16

**Gwneud y gorau o adnoddau** 17
- Mynediad di-dor 18
- Gwerthuso'r ddarpariaeth 19
- Astudiaeth achos 20

**Iaith, llythrennedd a chyfathrebu** 21
- Adnoddau 21
- Storïau 21
- Ysgrifennu 22

**Hwyl gyda mathemateg** 23
- Mathemateg yn yr awyr agored 23
- Defnyddio'r ardal gloddio 23
- Defnyddio deunyddiau naturiol 23
- Ceginau mwd 24
- Y potensial mewn metr sgwâr 24

**Deunyddiau naturiol** 25
- Adnoddau 25
- Chwarae byd bach 25
- Artistiaid naturiol 26
- Tywod 26
- Aros yn ddiogel 26

**Adeiladu ffeuau/cilfachau a chuddfannau** **27**
Adeiladu ffeuau 27
Adnoddau 27
Amser adeiladu 27
Cilfachau a chuddfannau 28
Beth sydd gan gilfachau a chuddfannau i'w gynnig i blant? 28
Sut gallwn ni ddatblygu cilfachau a chuddfannau yn yr awyr agored? 29

**Celf a chreadigrwydd** **30**
Dechrau arni 30
Gwneud llanast a gweithio ar raddfa fawr 30
Cydweithio 31
Chwilio am ysbrydoliaeth 31

**Cerddoriaeth a symudiadau** **32**
Cerddoriaeth o hen bethau 33
Llwybrau sŵn 33
Astudiaeth achos 34

**Adnoddau ar gyfer darpariaeth barhaus** **35**
Adeiladu ffeuau 35
Deunyddiau naturiol 36
Celf 37
Archwilio dŵr 38
Cerddoriaeth a symudiadau 39
Llythrennedd 40
Mathemateg ystyrlon 41
Ditectifs natur 42

**Deunydd darllen pellach, cysylltiadau a dolenni defnyddiol** **43**

**Diolchiadau** **45**

# Cyflwyniad

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored drwy chwarae. Mae'n bwysig bod pawb sy'n ymwneud â gofal ac addysg plant yn cydnabod gwerth y cyd-destun addysgu a dysgu pwerus hwn. Mae mwy a mwy o waith ymchwil[1] yn dangos y manteision i blant pan fyddant yn cysylltu â'r byd naturiol ac yn mwynhau profiadau yn yr awyr agored. Gall hyn gael effeithiau manteisiol hirdymor ar iechyd a lles plant yn ogystal â'u haddysg a'u datblygiad.

Mae profiadau yn yr awyr agored yn rhan hanfodol o blentyndod cynnar a chwarae yw'r ffordd fwyaf effeithiol a pherthnasol o ddarparu'r profiadau hynny. Mae gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda yn helpu plant i feddwl am y byd o'u cwmpas a gwneud synnwyr ohono[2]. Dylai plant gael cyfleoedd i ddilyn eu diddordebau a'u hymholiadau eu hunain drwy gyfuniad cytbwys o chwarae rhydd a gweithgareddau dan arweiniad oedolion sy'n eu helpu i ddatblygu sgiliau yn yr awyr agored, bob dydd, waeth beth fo'r tywydd.

Mae angen i'r amgylchedd dysgu awyr agored ategu'r amgylchedd dysgu dan do. Lle bo hynny'n bosibl, dylai plant dreulio cyfnodau hir yn yr awyr agored a dylent allu symud yn rhwydd o'r amgylchedd dan do i'r amgylchedd awyr agored. Mae cydnabod potensial man dysgu mor ddynamig a hyblyg, sy'n helpu plant i gymryd risgiau ymarferol a datblygu chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas, ymhob un o'r Meysydd Dysgu, yn rhan hanfodol o arfer a darpariaeth dda yn yr awyr agored.

Mae'n hollbwysig sicrhau bod gweithgareddau dysgu a chwarae awyr agored yn bwrpasol drwy eu harsylwi, eu cynllunio a pharatoi ar eu cyfer yn ofalus. Mae angen mannau awyr agored ysgogol a chefnogaeth oedolion brwdfrydig ar blant er mwyn iddyn nhw wneud y gorau o'r hyn sydd gan yr awyr agored i'w gynnig iddyn nhw. Dylai arweinwyr ddangos ymrwymiad i wneud y defnydd gorau o ymarfer a darpariaeth awyr agored drwy ddiwylliant ac ethos y lleoliad/ysgol. Mae'r canllawiau hyn yn adeiladu ar y wybodaeth a ddarperir yn *Y camau cyntaf yn yr awyr agored* (Llywodraeth Cymru a Learning through Landscapes Cymru, 2010) sy'n canolbwyntio ar ddatblygu mannau chwarae a dysgu awyr agored. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn edrych ar ddatblygu ymarfer a darpariaeth awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen.

---

1 Gweler 'Deunydd darllen pellach, cysylltiadau a dolenni defnyddiol' ar dudalen 43.
2 *Chwarae/Dysgu Gweithredol: Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed* (2008).

# Cynllunio ar gyfer dysgu a chwarae yn yr awyr agored bob dydd

Mae cynllunio a sicrhau cydbwysedd o dasgau a gaiff eu hysgogi gan blant a thasgau dan arweiniad oedolion yr un mor bwysig yn yr awyr agored ag y maent dan do. Heb waith cynllunio priodol, efallai na chaiff plant y cyfleoedd i gamu ymlaen yn eu datblygiad a'u haddysg. Mae'n rhaid i'r amser y bydd plant yn ei dreulio yn yr awyr agored fod yn bwrpasol er mwyn iddyn nhw feithrin sgiliau a gwybodaeth drwy chwarae a gwneud cynnydd da. Mae angen i blant gael eu cynorthwyo yn yr awyr agored gan ymarferwyr brwdfrydig sy'n darparu ac yn modelu cyfleoedd chwarae o ansawdd er mwyn sicrhau nad yw'r plant yn meddwl mai amser chwarae di-drefn ydyw.

Wrth feddwl am gynllunio profiadau awyr agored, gall fod yn ddefnyddiol ystyried y canlynol:



- diddordebau ac ymholiadau'r plant yn ogystal â'u syniadau am weithgareddau
- p'un a fydd profiadau yn cael mwy o effaith ar waith dysgu os byddan nhw'n digwydd yn yr awyr agored
- sut y gall dysgu yn yr awyr agored gyfoethogi a gwella gwaith dysgu yn y Meysydd Dysgu
- pa brofiadau sy'n gweddu orau i gyfuniad o ddysgu dan do ac awyr agored
- y ffordd orau o atgyfnerthu, datblygu neu wella gwaith dysgu dan do drwy ddefnyddio'r awyr agored.

Mae'n bwysig peidio â chanolbwyntio ar un math o ddarpariaeth awyr agored a dylai arweinwyr/ymarferwyr ystyried darpariaeth amrywiol. Defnyddiwch safle'r lleoliad/ysgol, mannau lleol yn ogystal â theithiau pellach i ffwrdd. Er enghraifft, gall dibynnu'n gyfan gwbl ar sesiynau mewn coedwig olygu na fydd plant yn profi'r rhyddid y gall profiadau bob dydd yn yr awyr agored ei gynnig. Yn ddelfrydol, yn dibynnu ar y cyfleusterau, dylai plant gael mynediad dyddiol, di-dor i ddarpariaeth awyr agored, gyda chydbwysedd o weithgareddau a gaiff eu hysgogi gan y plant a gweithgareddau a gefnogir gan oedolion brwdfrydig, yn ogystal â chyfleoedd rheolaidd i fynd i Ysgol Goedwig a chael profiadau oddi ar y safle.

Fodd bynnag, yr agweddau pwysicaf ar gynllunio darpariaeth awyr agored yw rhoi lle ac amser i'r plant ddatblygu eu chwarae, eu gwaith dysgu a'u dealltwriaeth. Efallai y byddwch yn sylwi bod plant yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol yn yr amgylchedd awyr agored a'r amgylchedd dan do. Yn yr awyr agored, gwelir yn aml fod plant yn ymgolli mwy yn eu syniadau, eu gwaith dysgu a'u chwilfrydedd eu hunain ac felly mae'n bwysig eu bod yn cael amser i ddatblygu eu hysbryd ymholi a'u sgiliau. Bydd faint o amser y bydd plant yn ei dreulio yn yr awyr agored yn dibynnu ar y lleoliad/ysgol, y gweithgareddau a'u hymgysylltiad ond dylid rhoi cymaint o amser â phosibl iddyn nhw er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u gwaith dysgu. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl, cynlluniwch adnoddau a sefyllfaoedd y gall plant eu gadael ar eu hanner a dychwelyd atyn nhw'n ddiweddarach.

| Pecyn adnoddau | Awgrymiadau am weithgareddau |
| --- | --- |
| **Adeiladu ffeuau** | • Archwilio a deall nodweddion deunyddiau bob dydd.<br>• Datblygu eu dealltwriaeth o gynllunio, dylunio, adeiladu, addasu a myfyrio.<br>• Chwarae rôl – gall hyn gael ei gysylltu â phwnc neu thema.<br>• Archwilio a deall goleuni a thywyllwch.<br>• Clip fideo/ysgrifennu cyfarwyddiadol – sut i adeiladu ffau/strwythur naturiol, gan gynnwys delweddau digidol.<br>• Cysylltu deunyddiau – sgiliau echddygol manwl, gwneud clymau. |
| **Celf** | • Creu darnau celf mawr.<br>• Cyfuno deunyddiau naturiol ac artiffisial mewn ffyrdd creadigol.<br>• Celf a darluniadau arsylwadol.<br>• Rhwbiadau – cymharu elfennau naturiol ac artiffisial, defnyddio rhwbiadau i greu darn mwy o gelf.<br>• Collage – gofyn i blentyn orwedd ar y llawr a thynnu llinell o'i gwmpas; llenwi siâp y corff â deunyddiau naturiol rydych wedi'u casglu.<br>• Adnabod gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith plant eraill.<br>• Archwilio cymesuredd a brithwaith. |
| **Cerddoriaeth a symudiadau** | • Symudiadau creadigol gan ystyried hwyliau a theimladau ac ailadrodd symudiadau.<br>• Ymateb i synau a cherddoriaeth, eu harchwilio a'u deall.<br>• Archwilio cyfeiriad y gwynt.<br>• Defnyddio a deall iaith ddisgrifiadol.<br>• Ymateb i gyfarwyddiadau mewn symudiadau a chreu eu cyfarwyddiadau eu hunain.<br>• Datblygu dealltwriaeth o gyfansoddi, dynameg, cyflymder, hyd a soniaredd mewn cerddoriaeth.<br>• Archwilio, creu a chwarae patrymau cerddorol syml.<br>• Ymuno â storïau sain. |

| Pecyn adnoddau | Awgrymiadau am weithgareddau |
|---|---|
| **Adnoddau naturiol** | • Defnyddio mewn gweithgareddau mathemateg – cownteri, ailadrodd patrymau a threfnu ymhlith pethau eraill.<br>• Byd bach – llunio ac adrodd stori a chwarae dychmygus.<br>• Gweithgareddau celf a chreadigol.<br>• Chwarae symbolaidd.<br>• Iaith ddisgrifiadol.<br>• Creu siart rhif naturiol.<br>• Creu poster ar gyfer y wyddor gan ddefnyddio deunyddiau naturiol i greu'r llythrennau.<br>• Chwilio'r ardal awyr agored am ddeunyddiau naturiol sy'n dechrau â phob llythyren neu lythyren benodol/cyfuniad penodol. |
| **Archwilio dŵr** | • Ystyried y cysylltiadau rhwng achos ac effaith – 'Beth os bydda' i . . . ?', 'Beth fydd yn digwydd os . . . ?'.<br>• Archwilio a deall cynhwysedd a chyfaint.<br>• Cludo dŵr – cysylltu cafnau a phibellau.<br>• Defnyddio dŵr a brwshys paent i wneud marciau a chreu llythrennau a rhifau.<br>• Archwilio amser – tynnu llinell â sialc o amgylch pyllau dŵr y mae'r plant wedi'u gwneud ar ddiwrnod braf; arsylwi beth sy'n digwydd dros amser.<br>• Archwilio effaith dŵr ar ddeunyddiau bob dydd. |
| **Archwilio natur** | • Arsylwi'r gwahaniaethau rhwng anifeiliaid a phlanhigion.<br>• Nodi anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr awyr agored – beth am eu rhoi ar lun o'ch ardal o'r awyr?<br>• Trefnu a dosbarthu bwystfilod bach.<br>• Creu cynefinoedd i fwystfilod bach.<br>• Archwilio effaith y tymhorau ar anifeiliaid a phlanhigion.<br>• Cynnal eu hymchwiliadau eu hunain ac ymchwiliadau dan arweiniad oedolion. |

# Chwarae yn yr awyr agored

Mae damcaniaethau chwarae amrywiol yn ategu[3] ac yn cefnogi addysgeg y Cyfnod Sylfaen. Mae ein dealltwriaeth o ddamcaniaethau chwarae yn datblygu'n gyson ac mae Sobel (2008) yn cynnig ei ddamcaniaeth ei hun ar chwarae yn yr awyr agored. Mae'n awgrymu y gall saith 'motiff chwarae' fod yn sail i brofiadau dysgu a chwarae yn yr awyr agored. Gall y motiffau hyn fod yn gymwys i brofiadau plant o bob oed, nid dim ond plant yn y Cyfnod Sylfaen.

| Motiff chwarae | Nodweddion y chwarae | Cefnogi'r chwarae |
|---|---|---|
| **Antur** | Penagored, annisgwyl, creadigol. | • Cyfnodau hir o chwarae rhydd a ysgogir gan y plant gydag adnoddau sy'n rhan o'r ddarpariaeth barhaus.<br>• Cymryd risgiau. |
| **Ffantasi a dychymyg** | Dianc a chwarae â'u dychymyg. | • Creu storïau a chwarae rôl.<br>• Pypedau.<br>• Gwisgo i fyny.<br>• Mythau a chwedlau Cymreig. |
| **Anifeiliaid cyfeillgar** | Cysylltu â bioamrywiaeth ac ecosystemau, gofalu amdanyn nhw a'u deall. | • Bwystfilod bach, anifeiliaid anwes.<br>• Cynefinoedd.<br>• Bioamrywiaeth syml.<br>• Cylchredau bywyd.<br>• Teithiau oddi ar y safle i fannau naturiol. |
| **Mapiau a llwybrau** | Archwilio, dilyn, dehongli. | • Dilyn a chreu mapiau.<br>• Tracio.<br>• Llwybrau.<br>• Archwilio drysfeydd a labrinthau. |

[3] Am ragor o wybodaeth, darllenwch *Chwarae/Dysgu Gweithredol – Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed* (Llywodraeth Cymru, 2008) ac *Addysgeg Dysgu ac Addysgu* (Llywodraeth Cymru, 2008).

| Motiff chwarae | Nodweddion y chwarae | Cefnogi'r chwarae |
|---|---|---|
| **Mannau arbennig** | Cilfachau a chuddfannau, ffeuau, caerau, cuddio. | • Adeiladau ffeuau – gyda phecyn a/neu ddeunyddiau naturiol, creu llochesi ac archwilio coedwigoedd/ardaloedd coediog.<br>• Amser i ffwrdd o olwg oedolion*. |
| **Bydoedd bach** | Creu bydoedd bach, cynrychioli, llunio ac adrodd storïau, chwarae symbolaidd. | • Creu bydoedd bach mewn mannau naturiol.<br>• Cynllunio a dylunio bydoedd bach. |
| **Hela a chasglu** | Chwilio, casglu, trysor cudd. | • Helfeydd yn gysylltiedig â phwnc/thema.<br>• Helfeydd llythrennedd/rhifedd.<br>• Casglu deunyddiau naturiol.<br>• Teithiau storïau natur.<br>• Tyfu, casglu a bwyta ffrwythau a llysiau. |

*Gall y plentyn deimlo hyn.

Bydd meddwl am y damcaniaethau chwarae hyn yn ddefnyddiol wrth gynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu, yn ogystal â meddwl am adnoddau, ymarfer a mannau dysgu i blant yn yr awyr agored.

# Arsylwi

Mae arsylwi ac asesu yn chwarae rôl hanfodol a gwerthfawr mewn ymarfer bob dydd yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal â helpu i asesu sgiliau datblygu, mae gwylio plant a gwrando arnyn nhw yn ddefnyddiol er mwyn sefydlu a deall eu barn ar sut, pam a ble y maen nhw'n dysgu. Mae hefyd yn fan cychwyn ar gyfer cynllunio gweithgareddau a pharatoi'r amgylchedd dysgu, gan ystyried diddordebau presennol y plant.

Wrth gasglu gwybodaeth, arsylwi ac asesu, mae'n bwysig gweithio dan do ac yn yr awyr agored. Cydnabyddir bod yr awyr agored yn amgylchedd gwahanol a chyferbyniol i'r amgylchedd dan do, gan ddarparu profiadau gwahanol ac, mewn rhai achosion, beri i blant ymddwyn mewn ffyrdd gwahanol. Wrth i amgylcheddau addysgu ehangu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth dan do, felly hefyd y dylai gwaith arsylwi.



Gall plant mewn lleoliadau/ysgolion dreulio cryn dipyn o amser y tu allan a bydd arsylwi ar eu sgiliau yn yr ystafell ddosbarth awyr agored yn ogystal â'r ystafell ddosbarth dan do yn helpu i greu darlun cyflawn o bob plentyn unigol. Er mwyn llunio darlun cyflawn, cyfannol o'r plant, mae'n hanfodol arsylwi arnyn nhw yn y ddau amgylchedd dros gyfnod o amser ond hefyd – wrth weithio yn yr awyr agored – mae'n hanfodol gofyn amrywiaeth o gwestiynau penagored.

> **"Mae'n bwysig nodi na fydd yna nod na rhesymeg a bennwyd ymlaen llaw bob tro wrth arsylwi (a dweud y gwir, mae llawer yn deillio o arsylwi). Gellir arsylwi ar blant yn ddyddiol wrth iddyn nhw ymgymryd â'u gweithgareddau. Mae arsylwi ar blant yn rhoi llawn cymaint o wybodaeth p'un ai y bydd yn digwydd yn yr awyr agored neu o dan do."**
>
> Arsylwi ar Blant (Llywodraeth Cymru, 2008)

## Cofnodi arsylwadau

Mae llawer o ffyrdd gwahanol o arsylwi ar blant a chofnodi eu hymdrechion a'u galluoedd. Dyma rai awgrymiadau a all fod yn effeithiol yn yr awyr agored.

### Llyfr nodiadau

Mae'n debyg mai llyfr nodiadau yw un o'r adnoddau mwyaf defnyddiol. Cadwch un yn eich poced, ynghyd â phensil (mae pensil yn well na phen ysgrifennu gan na fydd glaw na gweithgareddau dŵr yn difetha'r hyn rydych yn ei ysgrifennu), fel bod y ddau gennych wrth lawe.

### Dyddiadur

Gall cadw nodiadau arsylwi mewn dyddiadur fod yn ddefnyddiol iawn er mwyn gwerthuso gweithgareddau a myfyrio arnyn nhw – yn enwedig wrth geisio ymestyn gwaith dysgu'r plant. Maen nhw'n gallu bod yn eithaf mawr a swmpus, felly defnyddiwch lyfr nodiadau neu ddull cofnodi arall ac yna copïwch y cyfan i mewn i'r dyddiadur.

### Technoleg

Gallwch ddefnyddio ffotograffau a recordiadau digidol (e.e. fideo, llechen, MP3 a recordiwr llais) i gofnodi cyflawniadau a chynnydd plant yn yr awyr agored. Mae recordiadau gweledol a chlywedol yn ddefnyddiol hefyd er mwyn trosglwyddo gwybodaeth i weddill y tîm addysgu a phlant eraill. Cofiwch y gall y tywydd effeithio ar ansawdd recordiadau.

### Nodiadau glud

Mae'r rhain yn ddefnyddiol wrth arsylwi hefyd ond efallai na fyddan nhw bob amser yn ymarferol i'w defnyddio yn yr awyr agored pan fydd yn boeth neu'n wlyb. Cadwch y nodiadau, gyda phensil, mewn bagiau plastig wedi'u selio mewn gwahanol fannau o gwmpas eich amgylchedd awyr agored er mwyn nodi tystiolaeth fel y bo angen.

### Taflenni cofnodi

Mae'r rhain wedi'u paratoi ymlaen llaw ac yn cynnwys adrannau neu dargedau penodol ar gyfer arsylwi. Unwaith eto, bydd angen ichi amddiffyn tystiolaeth bapur fel hon rhag y tywydd. Cadwch eich cofnodion mewn bagiau plastig y gallwch eu selio er mwyn sicrhau na chânt eu difetha gan y glaw na'u chwythu i ffwrdd.

### Gwrando ar blant

Gallwch werthuso gweithgareddau neu ategu eich arsylwadau ynglŷn â sut y caiff yr ardal awyr agored ei defnyddio drwy annog y plant i roi adborth. Gallech wneud hyn yn y ffyrdd canlynol:

- gofyn iddyn nhw'n uniongyrchol, eu hannog i fynegi barn
- eu tywys ar daith o gwmpas yr ardal gyda chyfryngwr, fel pyped neu degan, er mwyn helpu i gasglu gwybodaeth
- defnyddio tocynnau 'teimladau' fel y gall y plant bleidleisio ar sut y maen nhw'n teimlo am nodwedd, ardal neu weithgaredd penodol
- adolygu tystiolaeth ffotograffig neu dystiolaeth fideo gyda'ch gilydd er mwyn gwerthuso gweithgareddau ac ardaloedd
- cynnal trafodaethau â'r plant mewn grŵp gan ofyn iddyn nhw ddisgrifio'r hyn y maen nhw'n ei hoffi neu'r hyn nad ydyn nhw'n ei hoffi am safle'r lleoliad/ysgol. Gall y geiriau y maen nhw'n dewis eu defnyddio ddweud llawer wrthoch am eu teimladau.

## Astudiaeth achos

Thema'r cylch chwarae ar gyfer y tymor oedd 'Yr Hydref' a chynlluniwyd amrywiaeth o weithgareddau ymhob un o'r Meysydd Dysgu. Penderfynwyd mynd ar daith gerdded hydrefol, ar ddechrau'r tymor, er mwyn cyflwyno'r thema a rhoi cyfle i'r plant gael profiadau uniongyrchol. Byddai'r plant yn cael cyfle i gasglu dail a mes ac unrhyw ddeiliach hydrefol arall. Gallai'r ymarferwyr gyflwyno'r plant i'r newidiadau yn y tymhorau a'u heffaith ar goed, planhigion ac anifeiliaid gaeafgwsg a thrafod y newidiadau a'r effeithiau hyn â nhw.



Yn ystod y daith, dechreuodd y plant gasglu mwyar duon a gwnaethon nhw sylwi fod sudd y ffrwythau wedi staenio eu bysedd. Yna trafododd y plant a'r oedolion y ffaith bod y sudd yn edrych fel inc. Gofynnodd y plant a allen nhw wneud lluniau gan ddefnyddio'r sudd ar ôl iddyn nhw fynd yn ôl. Yna, gyda chymorth yr oedolion, gwnaethon nhw drafod beth y gallen nhw ei ddefnyddio i wasgu'r mwyar, yn lle defnyddio eu bysedd. Ar ôl amrywiaeth o awgrymiadau, penderfynodd y plant mai'r adnodd gorau i'w ddefnyddio fyddai breuan a phestl. Roedd y plant wrth eu bodd yn gwasgu'r mwyar a buan y gwnaethon nhw sylweddoli y byddai angen mwy o fwyar arnyn nhw i gynhyrchu digon o sudd i wneud y lluniau. Gwnaethon nhw arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o wneud marciau, gan gynnwys defnyddio eu bysedd ac amrywiaeth o adnoddau o frwshys i ffyn. Cynhaliwyd y gweithgaredd hwn yn yr awyr agored.

Mae'r cylch chwarae bellach wedi datblygu ardal gwneud marciau awyr agored, sy'n rhan o'i ddarpariaeth barhaus. Gwnaed hyn o ganlyniad i syniadau ac ymateb y plant i ddatblygu'r ardal gan ddefnyddio eu profiad blaenorol. Mae'r ardal yn cynnwys deunyddiau naturiol fel darn mawr o foncyff coeden sy'n cael ei ddefnyddio fel bwrdd a cherrig mawr i eistedd arnyn nhw. Mae brigau, plu, dail a phowlenni'n cael eu darparu ac anogir y plant i ddefnyddio adnoddau naturiol er mwyn creu paentiau ac inciau. Mae ardal blannu yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau gwneud marciau mwy o faint, lle mae'r plant yn defnyddio'r pridd i wneud inc o fwd. Mae un aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau bod digon o adnoddau yn yr ardal hon ond mae pob aelod o staff yn cyfrannu syniadau ac maen nhw'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd cofnodi syniadau'r plant er mwyn ehangu'r ardal hon ymhellach.

# Arwain gwaith dysgu yn yr awyr agored

Mae chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn rhan annatod o'r Cyfnod Sylfaen, nid rhyw elfen ychwanegol ato. Mae gan arweinwyr lleoliadau/ysgolion rôl hollbwysig i'w chwarae i sicrhau bod plant yn cael profiadau dysgu ystyrlon mewn amgylcheddau awyr agored ysgogol a diogel sydd wedi'u cynllunio'n dda.

Mae arweinyddiaeth y lleoliad/ysgol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod cyfleoedd dysgu drwy chwarae cynaliadwy yn cael eu darparu a'u datblygu'n llwyddiannus yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid penaethiaid/rheolwyr yn unig a ddylai fod yn gyfrifol am lywio'r agwedd hon ar ymarfer – dylai pob aelod o staff rannu'r cyfrifoldeb. Gall gweledigaeth ac ymrwymiad arweinwyr a'u tîm ysgogi newid gwirioneddol er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant.



Er mwyn sicrhau ymarfer awyr agored da yn y Cyfnod Sylfaen, dylai arweinwyr wneud y canlynol:

- treulio amser yn yr amgylcheddau dysgu awyr agored eu hunain
- creu a chynnal diwylliant dan do/awyr agored yn y lleoliad/ysgol
- cydnabod gwerth dysgu a chwarae yn yr awyr agored a'i hyrwyddo i staff, llywodraethwyr, rhieni[4] a phlant
- neilltuo rhan o'r gyllideb i sicrhau darpariaeth gynaliadwy o ran dysgu a chwarae yn yr awyr agored
- datblygu, monitro a gwerthuso ymarfer a darpariaeth awyr agored
- hyrwyddo addysgeg awyr agored effeithiol drwy ddatblygiad proffesiynol
- cynnwys rhieni a'r gymuned ehangach lle bo hynny'n bosibl.

## Cydnabod gwerth chwarae yn yr awyr agored

Ni ellir tanbrisio manteision dysgu a chwarae yn yr awyr agored i blant. Mae llawer o astudiaethau wedi dangos ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar waith dysgu plant, eu datblygiad, eu hiechyd a'u lles. Gall y dull mwy gweithredol o ddysgu fod yn fwy diddorol a phriodol i rai plant, yn enwedig bechgyn. Gall yr ymdeimlad o ryddid sy'n dod o fod y tu allan annog y plant tawelaf i fod yn fwy siaradus a hyderus. Yn aml, pan ofynnir i blant ble yr hoffen nhw fod, eu hateb yw yn yr awyr agored gan fod ganddyn nhw'r rhyddid i wneud mwy o lanast a sŵn, neu ddod o hyd i fan tawel a heddychlon, yn ogystal ag archwilio, ymchwilio, defnyddio a datblygu eu synhwyrau a'u sgiliau, cymryd risgiau a phrofi heriau.

[4] Defnyddir 'rhieni' fel term generig drwy gydol y ddogfen hon. Gall olygu unrhyw oedolyn pwysig sy'n chwarae rhan ragweithiol wrth fagu plentyn neu blant ac mae'n cynnwys mamau, tadau, gofalwyr, rhieni maeth a mabwysiadu, gwarcheidwaid a rhieni corfforaethol.

Mae bod yn yr awyr agored yn golygu mwy na datblygu sgiliau corfforol a dysgu am y tymhorau. Gallai a dylai pob agwedd ar y Meysydd Dysgu gael ei hategu mewn ffordd gyfannol drwy chwarae a dysgu yn yr awyr agored. Dylai ymarferwyr gael eu hannog a'u helpu i gynllunio ffyrdd creadigol o ddarparu gweithgareddau llythrennedd, neu chwilio am ffyrdd o ddarparu problemau mathemateg mewn cyd-destun. Daw sgiliau meddwl, sy'n cael eu datblygu drwy heriau a chwestiynau, i'r amlwg yn yr awyr agored. Bydd rhoi caniatâd ac amser i'r plant ymchwilio, archwilio a darganfod 'Beth fydd yn digwydd os . . . ?' yn hyrwyddo eu datblygiad gwybyddol. Mae'r rhyddid a'r agwedd o 'roi cynnig ar unrhyw beth' y gall plant ei meithrin yn yr awyr agored, olygu y byddan nhw'n ymddiddori mwy mewn gweithgareddau, a bydd hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar eu hawydd i ddysgu. Bydd treulio amser gyda'r plant yn yr awyr agored yn helpu arweinwyr i werthfawrogi manteision y dull hwn o addysgu a dysgu.



## Monitro a gwerthuso

Er mwyn sicrhau arfer da a chynnal safonau, dylai arweinwyr a rheolwyr wneud amser i fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth addysgu a dysgu yn yr awyr agored. Dylai arweinwyr fod yn gyfarwydd ag ymarfer awyr agored da yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd ymweld â lleoliadau/ysgolion eraill, siarad ag ymgynghorwyr yr awdurdod lleol, mynd i ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), darllen yr wybodaeth a'r ymchwil ddiweddaraf yn helpu i lywio gwaith gwerthuso.

## Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) staff

Mae'n rhaid i'r holl aelodau o staff fod yn frwdfrydig am fod allan yn yr awyr agored; fel ymarferwyr Cyfnod Sylfaen, bydd yn rhaid iddyn nhw dreulio amser yn ymwneud â phlant yn yr awyr agored. Fodd bynnag, bydd plant yn sylwi'n fuan os na fydd oedolion yn frwdfrydig neu'n sylwgar a bydd gwerth ac ansawdd y chwarae a'r dysgu yn dirywio. Gweithiwch gydag aelodau'r tîm i ddefnyddio eu cryfderau a'u sgiliau a rhowch hyfforddiant a chyfleoedd DPP i bob aelod o staff pan fo hynny'n briodol. Peidiwch ag anghofio cynnwys staff nad ydyn nhw'n addysgu yn y broses hon gan ei bod yn bwysig eu bod hwythau hefyd yn deall yr agwedd hon ar y Cyfnod Sylfaen.

Meddyliwch am brosiectau awyr agored a sut y gallan nhw ddatblygu ymarfer a darpariaeth. Edrychwch ar ffyrdd o ddatblygu ymarfer ardderchog neu ymarfer arweiniol yn y sector drwy ymchwil weithredu, prosiectau cynnwys rhieni neu ffyrdd eraill o godi safonau sy'n benodol i'r lleoliad/ysgol.

## Polisi chwarae yn yr awyr agored

Meddyliwch am lunio polisi chwarae yn yr awyr agored er mwyn sicrhau bod pawb yn deall yr ysgogiad, y cymhelliad a'r athroniaeth sy'n sail i chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn eich lleoliad/ysgol. Rhowch gyfle i'r holl staff gyfrannu at weledigaeth eich lleoliad/ysgol fel bod cysondeb ac ymdeimlad o berchenogaeth dros ymarfer a darpariaeth.

**Beth ddylech ei gynnwys yn eich polisi?**

- **Gweledigaeth, nodau a rhesymeg** – dylai'r rhain gael eu llunio mewn cytundeb â thîm cyfan y lleoliad/ysgol.
- **Rolau a chyfrifoldebau** – cofiwch gynnwys manylion am bwy sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar chwarae yn yr awyr agored, e.e. arweinyddiaeth, adnoddau a storfeydd, cynnal a chadw, plannu, asesiadau risg cyffredinol.
- **Cynllunio** – eglurwch sut y bydd profiadau dysgu yn cael eu cynllunio a'u gwerthuso; ystyriwch gynnwys manylion am ddysgu a ysgogir gan y plentyn a dysgu dan arweiniad oedolyn.
- **Arsylwi ac asesu** – nodwch sut y bydd arsylwadau'n cael eu cynnal a'u defnyddio.
- **Rhieni** – eglurwch sut y gallwch eu cynnwys a'r dulliau cyfathrebu y byddwch yn eu defnyddio.
- **Iechyd a diogelwch** – nodwch sut y bydd asesiadau risg yn pwyso a mesur manteision chwarae yn erbyn canran y risg yn ogystal â manylion y gweithdrefnau ar gyfer 'archwilio'r safle'.
- **Tywydd** – cofiwch gynnwys manylion am sut y byddwch yn delio â thywydd eithafol, e.e. manylion am y dillad glaw sydd ar gael a manylion am ddefnyddio eli haul.
- **Adnoddau a chynaliadwyedd** – eglurwch sut y bydd adnoddau'r ddarpariaeth barhaus (cyfarpar parhaol a blychau adnoddau) yn cael eu storio, eu cynnal a'u cadw a'u newid.
- **Cydraddoldeb a chynhwysiant** – eglurwch y bydd pob plentyn, waeth beth fo'i allu, yn cael mynd allan i'r awyr agored a chael profiadau; cofiwch gynnwys parch at faterion diwylliannol, e.e. gwisg ac ymweliadau ag adeiladau crefyddol.
- **Monitro a gwerthuso** – nodwch sut y byddwch yn monitro ac yn gwerthuso ymarfer addysgu yn yr awyr agored er mwyn sicrhau ymarfer effeithiol.
- **Ymweliadau oddi ar y safle** – nodwch sut y bydd defnyddio ardaloedd yn y gymuned leol a theithiau ac ymweliadau yn cefnogi chwarae a dysgu.

## Rheoli adnoddau a chyllidebau

Dylai unrhyw gynlluniau mawr neu hirdymor ar gyfer eich ymarfer a'ch darpariaeth awyr agored gael eu cynnwys yng nghynlluniau datblygu eich lleoliad/ysgol, ynghyd â thargedau penodol a mesuradwy sy'n gwella deilliannau'r plant. Bydd arsylwi a monitro gwaith addysgu a dysgu, yn ogystal â sut y caiff adnoddau eu defnyddio, yn ddefnyddiol er mwyn penderfynu a oes angen newid pethau a sut i wneud hynny. Dangoswch ymrwymiad drwy sicrhau (hyd y gallwch) bod rhan o'r gyllideb flynyddol yn cael ei neilltuo i hyfforddiant, adnoddau a chynnal a chadw'r ardaloedd awyr agored.

## Cynnwys rhieni

Dylai rhieni gael gwybod beth a sut mae eu plant yn dysgu yn yr awyr agored. Mae hysbysfyrddau, cylchlythyrau a sesiynau 'aros a chwarae' yn ffyrdd o ddangos y sgiliau y mae plant yn eu dysgu a thawelu ofnau am gymryd risgiau. Cymerwch amser i egluro pwysigrwydd yr agwedd hon ar y Cyfnod Sylfaen, y weledigaeth a'r athroniaeth a helpwch rieni i ddeall pam nad yw eu plant bob amser yn dod adref yn lân.

Efallai y bydd rhieni yn fwy parod i roi help llaw yn y lleoliad/ysgol os byddan nhw'n gallu gwneud rhywbeth yn yr awyr agored. Efallai y bydd rhai oedolion yn ddrwgdybus o'r ystafell ddosbarth dan do, mwy ffurfiol neu efallai bod ganddyn nhw sgiliau penodol, fel sgiliau garddio neu sgiliau creadigol, a all helpu'r plant i ddysgu yn yr awyr agored.

Nid yw cynnydd plant yn dod i ben pan fyddan nhw'n gadael y lleoliad/ysgol. Gallan nhw ddatblygu sgiliau a galluoedd newydd dros y penwythnos neu yn ystod y gwyliau. Bydd gofyn i rieni roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am weithgarwch y plentyn yn eich helpu i lunio darlun cyflawn o'i alluoedd a'i sgiliau. Gall gwybodaeth berthnasol gael ei chofnodi'n hawdd ar ffurf nodyn cyflym, dyddiadur, taflen barod a/neu ffotograffau.

Mae'n bwysig hefyd rhoi syniadau i rieni am y ffordd y gallan nhw helpu eu plant i ddysgu yn yr awyr agored. Awgrymwch ffyrdd o wneud hyn yng ngardd y cartref, parc lleol, coedwig neu draeth, neu gwahoddwch y rhieni i sesiwn hyfforddi yn ardal awyr agored y lleoliad/ysgol er mwyn dangos a chyfnewid syniadau.



# Astudiaeth achos



Pan gafodd pennaeth ysgol fabanod a meithrin ei phenodi i'w swydd, cafodd siom o weld nad oedd yr ardaloedd awyr agored wedi'u datblygu'n ddigonol, nad oedden nhw'n cael eu defnyddio'n ddigonol a'u bod mewn cyflwr gwael. Gan ei bod yn deall pwysigrwydd yr agwedd hon ar y Cyfnod Sylfaen ac yn awyddus i ymgorffori dysgu a chwarae yn yr awyr agored fel rhan o ymarfer dyddiol, anfonodd yr holl aelodau staff ar gyrsiau hyfforddi. Cafodd yr ardaloedd awyr agored, gan gynnwys ardal goediog a'r ardaloedd yn union y tu allan i'r ystafell ddosbarth, eu gwerthuso a'u datblygu er mwyn cefnogi gweithgareddau penodol yn ogystal â darpariaeth barhaus.

Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael mynd i'r ardal goediog, lluniwyd amserlen. Mae hyn yn helpu pawb i wneud y gorau o'r amser y maen nhw'n ei dreulio yn yr awyr agored ac yn hwyluso cyfleoedd dysgu cyffrous gyda chymorth gan y rhieni ac aelodau o'r gymuned, fel y Gwasanaeth Achub Mynydd a Chatrawd y Gyrcas.

Caiff llawer o weithgareddau awyr agored eu cynllunio drwy ddarpariaeth ychwanegol ac mae gan bob plentyn fynediad di-dor i'r ardaloedd awyr agored gan fod ardaloedd diogel â ffensys yn union y tu allan i'r ystafelloedd dosbarth erbyn hyn. Cynhelir sesiynau cynllunio wythnosol gyda'r holl staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, gan werthuso deilliannau a chynnydd plant dan do ac yn yr awyr agored, a defnyddio'r wybodaeth i lywio'r camau nesaf. Mae cynllunio ar gyfer yr awyr agored hefyd yn tynnu sylw at sgiliau a nodwyd yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRhC) ar gyfer grwpiau penodol o blant er mwyn cefnogi gwaith dysgu mewn cyd-destun.

Mae'r pennaeth yn argyhoeddedig bod yr amgylchedd a'r ddarpariaeth ysgogol wedi cael effaith sylweddol iawn ar safonau cyflawniad da a lles y plant. Mae'n teimlo bod yr amgylchedd dysgu wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad y bechgyn yn arbennig. Yn 2013, dangosodd asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen fod perfformiad y bechgyn bump y cant yn well na pherfformiad y merched ar y cyfan.

Fodd bynnag, nid dim ond y staff addysgu sydd wedi'u hargyhoeddi. Ar ôl diwrnod agored pan wahoddwyd rhieni i rannu profiadau dysgu yn yr awyr agored, roedd sylwadau'r rhieni yn cynnwys, "Mae'r cyfleusterau awyr agored yn wych. Doeddwn i ddim wedi sylweddoli pa mor bwysig oedd yr agwedd hon ar ddysgu ond mae wedi creu argraff fawr arnaf" ac "Mae wrth ei fodd bod dosbarthiadau'n cael eu cynnal y tu allan. Mae'n gymaint yn fwy iach na bod dan do drwy'r dydd."

# Gwneud y gorau o adnoddau

Mae adnoddau yn rhan bwysig o ddysgu a chwarae yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Gall y mathau o gyfarpar a deunyddiau sydd ar gael i blant gael effaith fawr ar y math o brofiadau chwarae y byddan nhw'n eu cael. Mae darpariaeth chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn golygu mwy na mynd ag adnoddau a chyfarpar dan do a'u gosod y tu allan. Fel amgylchedd amgen i blant, mae'n hanfodol eu bod yn cael adnoddau a fydd yn eu helpu i ddehongli, deall a defnyddio natur arbennig yr awyr agored.

Gall darpariaeth barhaus yn yr awyr agored gynnwys darnau parhaol o gyfarpar mawr yn ogystal â blychau neu becynnau o adnoddau y gellir eu defnyddio'n hyblyg i ddarparu a chefnogi gweithgareddau a chyfleoedd dysgu a ysgogir gan blant a rhai a arweinir gan oedolion. Gall yr adnoddau gorau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored gostio fawr ddim, os o gwbl, a gallant gael dylanwad mawr ar ansawdd gwaith dysgu a chwarae plant. Canolbwyntiwch ar ddeunyddiau llai a hawdd cael gafael arnynt sy'n cefnogi agweddau ar y ddarpariaeth gan gynnwys chwarae dychmygus a chreadigol, archwilio dŵr, tyfu ac annog datblygiad ieithyddol a gwybyddol. Drwy ddewis adnoddau hyblyg â gwerth chwarae uchel, nid oes angen cymaint o eitemau arnoch mewn gwirionedd.

Dylai'r pecynnau a awgrymir[5] gael eu defnyddio fel sail i'r ddarpariaeth, yn union fel y defnyddir adnoddau dan do, a dylid ychwanegu atyn nhw er mwyn ategu themâu a phynciau. Bydd heriau i annog sgiliau meddwl a datrys problemau yn cynnal diddordeb y plant ac yn rhoi cyfleoedd i ymestyn gwaith dysgu a datblygiad yn briodol. Dylai'r plant allu cymysgu adnoddau o wahanol becynnau hefyd er mwyn datblygu eu chwarae a'u helpu i ddefnyddio sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.



Wrth feddwl am adnoddau, mae'n bwysig ystyried y ffyrdd gorau o gynnig cyfleoedd dysgu cyfannol yn yr awyr agored. Bydd cynlluniau hirdymor yn eich helpu i benderfynu pa brofiadau yr hoffech eu darparu yn yr awyr agored ac, yn eu tro, yn rhoi syniad ichi o ba adnoddau sydd eu hangen ar gyfer eich darpariaeth barhaus. Bydd gwerthuso eich darpariaeth awyr agored bresennol yn eich helpu i ddarparu cyfleoedd chwarae pwrpasol a bydd y grid 'Gwerthuso'r ddarpariaeth' ar dudalen 19 yn eich helpu i ddechrau arni.

Meddyliwch am greu ardaloedd dysgu deniadol ac ysgogol y tu allan, fel rydych yn ei wneud dan do. Mae *Y Camau cyntaf yn yr awyr agored* (2010) yn darparu adnoddau archwilio a chynllunio cynhwysfawr yn ogystal â chyngor ar gasglu syniadau a meddyliau'r plant ac awgrymiadau ar sut i ymgynghori â phlant. Bydd hyn yn eich helpu i ddatblygu ardaloedd awyr agored priodol a chefnogi'r hyn yr hoffech ei **wneud** gyda'r plant yn yr awyr agored, yn hytrach na buddsoddi mewn cyfarpar sy'n edrych yn dda ond na chânt eu defnyddio'n ddigonol neu sydd heb fawr ddim gwerth chwarae.

[5] Mae rhestrau o awgrymiadau ar gyfer darpariaeth barhaus i'w gweld ar dudalennau 35–42.

Mae'n hanfodol hefyd meddwl am ddillad a fydd yn galluogi plant ac oedolion i fynd allan drwy gydol y flwyddyn, beth bynnag fo'r tywydd. Mae'n ddoeth buddsoddi yn y dillad glaw gorau posibl er mwyn sicrhau eich bod yn cael gwerth am arian. Gall storio dillad fod yn her ond mae'n werth dod o hyd i ardal hongian dillad ar uchder sy'n golygu y gall plant ei defnyddio'n annibynnol. Os yw'n bosibl, lleolwch yr ardal hon yn agos at y drws er mwyn creu ardal drawsnewid a fydd yn cynnig mynediad di-dor rhwng y ddau amgylchedd dysgu.

## Mynediad di-dor

Gwyddom nad oes modd cael mynediad di-dor i'r awyr agored ymhob adeilad, ond gall darparu sesiynau awyr agored penodol yn ôl amserlen yn unig achosi problemau am amrywiaeth o resymau. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg cyfleoedd dysgu a ysgogir gan y plant eu hunain, gweithgareddau dan do yn cael eu gadael ar eu hanner er mwyn mynd allan, problemau o ran adnoddau pan fo'r holl blant allan ar yr un pryd, diffyg cymhelliant a chyfranogiad ymysg staff a chyfleoedd gwael i ddysgu ac arsylwi mewn ffordd gyfannol. Yn yr achosion lle mae'r ddarpariaeth awyr agored yn gweithio orau, mae lleoliadau/ysgolion wedi dod o hyd i ffyrdd o hwyluso mynediad di-dor rhwng yr amgylcheddau dan do ac awyr agored a chyfuno'r ddau er mwyn hyrwyddo cyfleoedd dysgu a chwarae o ansawdd.



Mae manteision mynediad di-dor yn cynnwys:

- cyfnodau estynedig o ddysgu a chwarae
- gwell lles
- effaith gadarnhaol ar ymddygiad
- cydbwysedd gwell rhwng dysgu a ysgogir gan y plentyn a dysgu dan arweiniad oedolyn
- cyfle cyfartal i'r holl blant ddefnyddio'r ddau amgylchedd
- defnydd gwell o adnoddau ac amser gan fod plant yn gyfarwydd â bod y tu allan, yn hytrach na bod yn rhywbeth newydd iddyn nhw
- gall ymarferwyr gael eu hysbrydoli i ddatblygu eu hymarfer eu hunain.

Gall darparu mynediad di-dor fod yn anodd iawn, ond bydd yr effaith ar waith dysgu a datblygiad cyffredinol y plant, yn ogystal ag ymarfer addysgu, yn talu ar ei chanfed.

# Gwerthuso'r ddarpariaeth

| | Beth sy'n digwydd nawr? | Pa mor dda mae hyn yn gweithio inni? Beth sy'n cyfyngu arno? | Sut y gallwn ddatblygu hyn? Beth yw'r effaith bosibl ar ddysgu a datblygu? |
|---|---|---|---|
| **Cyfarpar chwarae mawr a pharhaol**, *e.e. fframiau dringo, tai bach twt, adnoddau ag olwynion* | | | |
| **Adnoddau'r ddarpariaeth barhaus,** *e.e. pecyn adeiladu ffau, adnoddau dŵr, pecyn celf* | | | |
| **Adnoddau'r ddarpariaeth ychwanegol**, *e.e. adnoddau chwarae rôl, cyfarpar chwarae gemau* | | | |
| **Adnoddau'r ddarpariaeth arbenigol**, *e.e. offer, adnoddau gwyddonol arbenigol* | | | |
| **Storfeydd**, *e.e. labeli, mynediad i blant yn ogystal ag oedolion, materion iechyd a diogelwch* | | | |

# Astudiaeth achos



Mae'r ysgol yn cydnabod ei bod yn bwysig cynnal a chadw ei hardaloedd awyr agored er mwyn darparu a chefnogi cyfleoedd dysgu o ansawdd i'r plant. Mae'n cynnal digwyddiadau arbennig, rheolaidd ac yn annog y rhieni i gymryd rhan ynddyn nhw er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yr ymarfer a'r ddarpariaeth awyr agored.

Unwaith y flwyddyn, mae'n cynnal wythnos 'trin y tir', pan wahoddir rhieni a'r gymuned leol i helpu i gynnal a chadw a datblygu'r ardal awyr agored. Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer yr wythnos, mae'r ymarferwyr yn ymgynghori â'r plant er mwyn cael eu barn a'u safbwyntiau a llywio unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r cwestiynau yn canolbwyntio ar yr hyn mae'r plant yn ei hoffi a'r hyn nad ydyn nhw'n ei hoffi am eu hardal awyr agored yn ogystal â'r hyn yr hoffen nhw ei wneud pan fyddan nhw yn yr awyr agored. Yna caiff y manylion hyn, yn ogystal â'r wybodaeth a gasglwyd gan y staff, eu bwydo i mewn i gynlluniau tymor canolig a hirdymor a'u defnyddio i lunio rhestr o 'bethau i'w gwneud' ar gyfer y gwirfoddolwyr.

Gwneir gweithgareddau fel peintio, creu cyfarpar newydd, golchi a glanhau adnoddau, plannu a chloddio yn ystod yr wythnos, gan ddefnyddio sgiliau penodol yr oedolion sy'n cymryd rhan. Yn dilyn un o'r digwyddiadau hyn, cynigiodd un taid a oedd yn dipyn o arddwr wirfoddoli yn rheolaidd yn yr ysgol. Aeth yn ei flaen i gynllunio a datblygu rhandir gyda'r plant lle maen nhw'n mwynhau tyfu amrywiaeth o ffrwythau a llysiau. Mae'r plant yn cynaeafu'r cnydau ac yn cynnal marchnad ffermwyr flynyddol er mwyn gwerthu eu cynnyrch i rieni a'r gymuned leol, gan eu cyflwyno i fenter ar raddfa fach a sgiliau rheoli arian. Mae'r plant hefyd yn defnyddio'r bwyd y maen nhw wedi'i dyfu yn eu gweithgareddau coginio ac yn dysgu sut i werthfawrogi blasau newydd tra'n dysgu am ffyrdd iach o fyw ar yr un pryd.

# Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Mae angen i blant allu cyfathrebu a defnyddio iaith, waeth pa iaith ydyw, er mwyn dysgu a chymdeithasu. Drwy weithgareddau a phrofiadau sy'n defnyddio eu holl synhwyrau maen nhw'n dysgu orau a gall yr amgylchedd awyr agored ddarparu mwy o ryddid a lle i gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, amlsynhwyraidd fel chwarae rôl, rhigymau a chaneuon, darllen ac ysgrifennu sy'n helpu i ddatblygu sgiliau iaith a llythrennedd. Mae'r amgylchedd dynamig yn ychwanegu nodweddion arbennig at waith dysgu a chwarae plant, fel y rhyddid i fod yn fwy bywiog a swnllyd, neu ardaloedd i fod yn dawel a phwyllog, gofod agored, heb do a newidiadau dyddiol sy'n cynnig cyfleoedd newydd i ysgogi a datblygu sgiliau llythrennedd.

## Adnoddau



Er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd ychwanegol i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a llythrennedd y tu allan, ystyriwch greu pecyn adnoddau. Mae adnoddau fel clipfyrddau, papur, cardiau llythrennau, llythrennau cyffyrddadwy ac offer gwneud marciau/ysgrifennu fel pensiliau, sialciau, brwshys paent a rholeri (i'w defnyddio gyda dŵr) yn sylfaen dda a gellir eu defnyddio ymhob un o'r Meysydd Dysgu. Mae pypedau ac adnoddau synau cychwynnol yn ychwanegiadau defnyddiol hefyd ac mae blwch llyfrau yn rhan hanfodol o ddarpariaeth awyr agored.

**"Mae'n bwysig nodi na fydd yna nod na rhesymeg a bennwyd ymlaen llaw bob tro wrth arsylwi (a dweud y gwir, mae llawer yn deillio o arsylwi). Gellir arsylwi ar blant yn ddyddiol wrth iddyn nhw ymgymryd â'u gweithgareddau. Mae arsylwi ar blant yn rhoi llawn cymaint o wybodaeth p'un ai y bydd yn digwydd yn yr awyr agored neu o dan do."**

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Llywodraeth Cymru, 2008)

## Storïau

Caiff sgiliau plentyn fel siaradwr eu hategu drwy adrodd stori. Erbyn y byddan nhw'n dair oed, mae'n bosibl y bydd gan blant ddiddordeb mewn chwarae dychmygus sy'n gynyddol gymhleth, y maen nhw'n ei ddefnyddio i archwilio eu byd a gwneud synnwyr ohono drwy naratif, gan ddefnyddio iaith i ail-greu rolau a phrofiadau. Mae'r sgiliau llafar hollbwysig hyn yn creu sylfaen i'r plentyn fel ysgrifennwr. Mae'r awyr agored yn addas iawn ar gyfer amrywiaeth cyffrous o themâu chwarae rôl, dychmygus a all ysgogi deialog, gweithgareddau a syniadau. Byddwch yn greadigol yn eich darpariaeth a dewch o hyd i ffyrdd o gysylltu'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored, e.e. gall eitemau a brynir yn y siop chwarae rôl dan do gael eu defnyddio yn yr awyr agored i fynd am bicnic. Chwiliwch am gyfleoedd i greu sefyllfaoedd byd bach; gadewch leiniau o laswellt hir er mwyn chwarae â dinosoriaid neu anifeiliaid, neu leiniau coediog bach a all ddod yn fyd ffantasi neu'n fyd tylwyth teg.

## Ysgrifennu

Meddyliwch sut y gall ardaloedd a gweithgareddau awyr agored ysgogi gwaith ysgrifennu. Drwy ddefnyddio'r awyr agored fel man cychwyn, gellir annog plant i ddefnyddio eu dychymyg ac iaith ddisgrifiadol a fydd, yn ei dro, yn cefnogi gweithgareddau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ymhob un o'r Meysydd Dysgu.

Mae disgrifiadau plant ar eu mwyaf byw pan fyddan nhw'n cynnwys manylion am bob synnwyr, ond yn aml dim ond yr hyn y gallant nhw ei weld y maen nhw'n ei gynnwys. Datblygwch eu hymwybyddiaeth o bob un o'u synhwyrau drwy nifer o weithgareddau byr.


- Gan eistedd mewn un man, gofynnwch i'r plant ddarlunio neu ysgrifennu'r hyn y gallan nhw ei weld/clywed/arogli/blasu/teimlo mor fanwl â phosibl heb ddweud ble yn union maen nhw. Ar ddiwedd y gweithgaredd, cyfnewidiwch y disgrifiadau a gofynnwch i'r lleill ddod o hyd i'r man lle roedden nhw'n eistedd.
- Anogwch y plant i arsylwi ar bopeth uwch eu pennau a'i ddisgrifio – siapiau cymylau, adar yn hedfan, teils to ac ati – ac yna gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio popeth ar lefel y ddaear – pryfed, craciau yn y tarmac ac ati.
- Lluniwch fapiau sŵn – gofynnwch i'r plant dynnu llun o'r holl synau y gallan nhw eu clywed ar ddarn o bapur, gan ddefnyddio eu nodiannau eu hunain, er mwyn eu hannog i sylwi ar y synau o'u cwmpas.



Er mwyn annog ysgrifennu dychmygus, rhowch fan cychwyn i'r plant, e.e. 'Neithiwr yn y maes chwarae . . . ' ac ychwanegwch ragor o fanylion fel y bo angen, fel 'clywais rywun yn gweiddi' neu 'gwelais fflach o olau'. Anogwch y plant i gynnwys manylion penodol drwy ofyn cwestiynau fel 'Beth roedden nhw'n ei wneud yno?', 'Sut aethon nhw'n i mewn yno?', 'Sut roedden nhw'n teimlo?' ac 'A wnaeth rhywun eu gweld?'.

Helpwch y plant i ysgrifennu yn yr awyr agored drwy ddarparu mannau tawel i ffwrdd oddi wrth yr ardaloedd dysgu mwy swnllyd ac adnoddau fel clipfyrddau, pensiliau (gall lleithder wneud inc yn aneglur) a seddi diddos (mae torri darn o darpolin neu oelcloth yn ateb cost effeithiol ac mae'n golygu y gall pob plentyn gael ei le ei hun).

# Hwyl gyda mathemateg



Gallai a dylai datblygu sgiliau meddwl a dysgu mathemategol fod yn rhan o brofiadau dysgu awyr agored dyddiol plant. Gallan nhw gyfrif, mesur ac archwilio siapiau, a datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol a rhesymu rhifol mewn cyd-destun. Yn wir, gall plant wneud yr holl ddysgu mathemategol y maen nhw'n ei wneud dan do yn yr awyr agored, ond gyda mwy o egni, rhyddid a lle.

## Mathemateg yn yr awyr agored

Gallwch wella darpariaeth fathemategol eich ardal awyr agored drwy ddarparu amgylcheddau cyfoethog a chyffrous sy'n ennyn chwilfrydedd plant ac yn herio sgiliau meddwl. Bydd cynnwys pecyn mathemateg yn y ddarpariaeth barhaus yn eich helpu i wneud y gorau o gyfleoedd dysgu wedi'u cynllunio a chyfleoedd dysgu digymell.

Bydd cardiau rhif, sialciau, tapiau mesur, dis mawr, cylchoedd a chynwysyddion, cownteri naturiol fel moch coed, cregyn neu gerrig bach, a lein ddillad a phegiau oll yn ddefnyddiol ac yn cefnogi mathemateg ymhob un o'r Meysydd Dysgu.

**“Er mwyn datrys problemau, rhaid i blant ac oedolion ddefnyddio'u profiadau o'r byd. Po ieuaf y plentyn, lleiaf o brofiad fydd ganddo fe neu ganddi hi, felly mae'n bwysig rhoi problemau sy'n rhoi'r rhyddid iddyn nhw ymchwilio heb deimlo eu bod wedi methu.”**

Datblygiad Mathemategol (Llywodraeth Cymru, 2008)

## Defnyddio'r ardal gloddio

- Newidiwch gynnwys yr ardal gloddio; bydd mwd, blawd llif, graean, deilbridd a rhisgl coed yn datblygu syniadau plant am gynhwysedd a phwysau.
- Mae'n hawdd troi sefyllfa gloddio yn sefyllfa datrys problem pan fo'n rhaid cloddio twll sy'n ddigon dwfn i gladdu tair carreg. Gall plant archwilio, er enghraifft, sawl carreg y gallan nhw eu rhoi mewn twll sydd newydd gael ei gloddio.
- Er mwyn eu hannog i adnabod darnau arian a defnyddio eu sgiliau adio, claddwch ddarnau arian yn yr ardal gloddio. Cyn pen dim, bydd y plant yn cystadlu i weld pwy sydd wedi dod o hyd i'r swm mwyaf o arian ac mae hyn hyd yn oed yn fwy gwerth chweil os nad ydyn nhw'n gwybod bod darnau arian yno.

## Defnyddio deunyddiau naturiol

- Pan fyddwch allan yn yr awyr agored, defnyddiwch wrthrychau naturiol, cyffyrddadwy fel cownteri, e.e. mes, concyrs, cerrig bach a chregyn, i wneud mathemateg yn fwy diddorol.
- Defnyddiwch frigau a llinyn i annog y plant i ymarfer ffurfio rhifau ar raddfa fwy o faint. Marciwch y rhifau allan gyda'r brigau a'u cysylltu gan ddefnyddio'r llinyn.

- Anogwch y plant i chwilio am wrthrychau naturiol yn yr awyr agored. Darparwch gylchoedd a chynwysyddion i'r plant rannu'r hyn y maen nhw'n dod o hyd iddo yn gategorïau penodol, a helpwch nhw i gyfrif a chofnodi'r hyn y maen nhw wedi'i ddarganfod.

> **“Mae mathemateg yn berthnasol i ystod eang o waith y mae disgyblion rhwng 3 a 7 oed yn ei wneud. Mae'r gallu i fod yn hyfedr mewn mathemateg a chymhwyso medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ym meysydd a chyd-destunau eraill y cwricwlwm yn hanfodol i gyflawniad addysgol.”**
>
> Chwarae a dysgu gweithredol: Pecyn cymorth ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen (Estyn, 2009)

## Ceginau mwd

Mae cegin fwd yn cyfuno elfennau'r cornel cartref a choginio o'r ddarpariaeth dan do, a gaiff eu cyfoethogi wedyn drwy fod yn yr awyr agored a thrwy weithio gyda rhai o elfennau mwyaf sylfaenol byd natur, sef pridd a dŵr. Mae ceginau mwd yn ddelfrydol er mwyn archwilio, amcangyfrif cyfaint a maint, mesur pwysau, ymchwilio i amser, creu patrymau, cymysgu deunyddiau, prynu a gwerthu, cydweithio a chefnogi gwaith dysgu dychmygus. Drwy ychwanegu bwrdd sialc a sialciau, gallwch annog plant i greu eu bwydlenni a'u ryseitiau eu hunain a rhoi cyfleoedd iddyn nhw ysgrifennu at ddiben yn ogystal â defnyddio arian mewn cyd-destun.

## Y potensial mewn metr sgwâr

Mae gan fetr sgwâr, sydd wedi'i fesur a'i farcio â llinyn neu frigau, botensial mawr fel sail i lawer o weithgareddau yn y Meysydd Dysgu. Mae'n golygu bod gan blant, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau bach, eu cynfas eu hunain i weithio arno. Gall mesur y sgwâr ei hun fod yn her i'r plant ac mae'n rhoi cyfle iddyn nhw ddysgu am fesurau safonol ac ansafonol.



Meddyliwch sut y gall metr sgwâr helpu plant i ddysgu ymhob un o'r Meysydd Dysgu, e.e. creu byd bach a fydd yn helpu i ddatblygu stori neu adlewyrchu amgylchedd penodol, cynllunio a chreu mapiau 3D a deall cyfesurynnau syml, archwilio cymesuredd, patrwm a siâp yn ogystal â gwerthoedd rhif a lle os oedd y sgwâr wedi'i rannu'n grid. Dim ond awgrymiadau yw'r syniadau hyn a byddwch yn dod o hyd i lu o ffyrdd o ddefnyddio'r dull hwn yn eich pwnc neu thema. Bydd llunio ffeil yn cynnwys holl syniadau ymarferwyr a phlant yn helpu i ategu a rhannu arfer da yn yr awyr agored.

# Deunyddiau naturiol



Gall chwarae â deunyddiau naturiol fod yn broses therapiwtig a all ddiwallu anghenion iechyd meddwl. Bydd plant yn treulio amser hir wedi ymgolli yn eu byd bach eu hunain wrth iddyn nhw archwilio teimlad ac ymddygiad y deunyddiau neu ddychmygu golygfeydd a storïau. Mae'r adnoddau hyn yn eu hysgogi i chwarae gyda'i gilydd mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Mae'n hawdd i blant fod yn wyddonwyr, yn beirianwyr ac yn ddyfeiswyr, yn artistiaid, yn storïwyr ac yn ddefnyddwyr iaith gydag adnoddau naturiol, wrth iddyn nhw ddilyn eu hawydd greddfol i archwilio eu byd a gwneud synnwyr ohono.

## Adnoddau

Caiff tywod, dŵr a deunyddiau naturiol eraill eu defnyddio dan do i gynrychioli'r byd naturiol oherwydd gwyddom y gallan nhw gynnig amrywiaeth eang o brofiadau i blant. Fodd bynnag, fel arfer, mae diffyg lle dan do a chyfyngiadau o ran llanast yn golygu bod defnydd y plant o'r deunyddiau hyn yn gyfyngedig. Drwy fanteisio ar natur arbennig a rhyddid yr awyr agored, gellir archwilio deunyddiau naturiol ac arbrofi â nhw, a hynny'n aml ar raddfa fwy.

Tra bod gan rai lleoliadau/ysgolion safleoedd sy'n cynnwys y mathau hyn o ddeunyddiau yn naturiol, mae angen i lawer ohonyn nhw gyflenwi'r deunyddiau hyn eu hunain fel rhan o'u darpariaeth awyr agored barhaus. Bydd cregyn, cerrig bach, moch coed, darnau o bren a dail anarferol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu penagored. Ystyriwch ddefnyddio dysglau plannu, teiars a basgedi i storio'r deunyddiau a chynlluniwch weithgareddau plannu er mwyn creu diddordeb ac ysgogiadau drwy gydol y flwyddyn.

**“Ar y dechrau, mae profiadau â defnyddiau naturiol yn rhai cyffyrddol. Dylai plant gael cyfleoedd i deimlo, ymchwilio ac archwilio priodweddau'r defnyddiau hyn cyn mynd ati i wneud gweithgareddau mwy strwythuredig.”**

Chwarae/Dysgu Gweithredol (Llywodraeth Cymru, 2008)

## Chwarae byd bach

Gall deunyddiau naturiol a chwarae byd bach weddu i'w gilydd yn berffaith gan fod chwarae symbolaidd yn nodwedd allweddol o ddysgu cynnar. Darparwch amrywiaeth eang o ddeunyddiau naturiol er mwyn helpu i greu amgylcheddau, cymeriadau a naratifau byd bach. Bydd hambwrdd chwarae[6] neu flanced yn creu sylfaen dda i weithgaredd chwarae byd bach, ond beth am gynnwys mathemateg yn y gweithgaredd a gofyn i blant mwy galluog fesur metr sgwâr o dir lle gallan nhw greu eu senario.

[6] Hambwrdd mawr i adeiladwyr sydd ar gael mewn siopau cartref neu gyflenwyr lleoliadau/ysgolion.

## Artistiaid naturiol

Mae deunyddiau naturiol a welir yn yr awyr agored sy'n addas iawn i'w defnyddio mewn gweithiau artistig yn cynnwys gwiail helyg (mae'r rhain yn hyblyg a gellir eu defnyddio i greu siapiau mawr a bach), pennau hadau, cerrig bach a rhisgl wedi'i gompostio, dail a chlai (efallai y bydd pridd eich safle yn cynnwys digon o glai fel y gallwch wneud siapiau ohono a'i fowldio). Arbrofwch gyda phridd a cherrig i greu darnau artistig. Defnyddiwch bridd a mwyar i wneud lliwiau peintio. Gallwch hyd yn oed ddefnyddio'r tywod yn eich ardal dywod i dynnu lluniau, cerflunio neu addurno.

## Tywod

Mae tywod yn ddeunydd hynod o hyblyg ac mae'n elfen bwysig iawn o'r ddarpariaeth awyr agored barhaus i blant. Bydd creu'r pwll tywod mwyaf posibl yn eich ardal awyr agored yn creu gwrthgyferbyniad â'ch darpariaeth dan do ac yn creu cyfleoedd diddiwedd i arbrofi, cloddio a chladdu, cludo, ymchwilio i gynhwysedd yn ogystal â chwarae creadigol a chwarae byd bach.



## Aros yn ddiogel

Wrth archwilio deunyddiau naturiol, mae'n bwysig bod plant hefyd yn sylweddoli ei bod yn bwysig golchi dwylo ar ôl bod allan yn yr awyr agored a defnyddio adnoddau naturiol a phridd. Pan fyddan nhw'n archwilio mannau naturiol, mae'n hanfodol hefyd bod plant yn deall os nad ydyn nhw'n gwybod beth yw rhywbeth, e.e. planhigyn, ffrwyth neu had, na ddylen nhw gyffwrdd ag ef. Mae angen i ymarferwyr wybod beth sy'n tyfu yn eu hardaloedd awyr agored neu'r ardaloedd y maen nhw'n ymweld â nhw a'r canlyniadau posibl i'r plant yn y lleoliad/ysgol.

Bydd y sefydliadau ar dudalen 43 a 44 yn gallu eich helpu i adnabod peryglon naturiol posibl ac efallai y gall ymgynghorwyr yr awdurdod lleol eich helpu hefyd.

# Adeiladu ffeuau/cilfachau a chuddfannau

## Adeiladu ffeuau



Mae adeiladu ffau yn fan cychwyn ardderchog ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau awyr agored gwahanol. Dylai eich darpariaeth awyr agored barhaus gynnwys un neu ddau o becynnau adeiladau ffeuau a gall cynnwys y pecynnau adlewyrchu cyfnodau datblygiad y plant yn eich lleoliad/ysgol. Gallwch ychwanegu deunyddiau ac adnoddau er mwyn gwella gwaith dysgu a thrwy amrywio'r cyfarpar a'r adnoddau, gallwch helpu i ddatblygu sgiliau'r plant ymhob un o'r Meysydd Dysgu.

## Adnoddau

Mae adeiladau ffeuau a chreu cilfachau a chuddfannau yn brofiadau ymarferol i blant. Gydag ystod dda o adnoddau addas a chymorth priodol gan oedolyn brwdfrydig, gall plant greu amrywiaeth eang o ardaloedd bach ar unrhyw arwyneb. Gall y broses greu hon arwain at ystod eang o ddeilliannau dysgu, yn enwedig pan fo'r plant yn sgwrsio gyda'i gilydd mewn modd pwrpasol a pharhaus a phan fo oedolion yn meddwl am syniadau gyda nhw.

Gallwch greu potensial i adeiladu ffeuau drwy agor mynedfa i glwstwr o lwyni neu glirio ardal sydd wedi'i hesgeuluso. Darparwch ddeunyddiau rhydd fel blychau, cratiau, tarpolin, blancedi ac 'adnoddau cysylltu' (e.e. tâp, llinyn a phegiau). Os nad oes gennych lawer o ofod naturiol, yna gallwch greu sylfeini'r strwythur drwy roi coesau brwshys mewn dysglau plannu llawn sment ac ychwanegu bachau diogel. Gall gwiail bambŵ annog y plant i ddatblygu sgiliau meddwl wrth iddyn nhw weithio allan drostyn nhw eu hunain y ffordd orau o greu fframiau a strwythurau sefydlog, cryf. Meddyliwch am sefydlu 'siop' offer adeiladu ffau lle gall y plant brynu adnoddau a datblygu eu dealltwriaeth o arian.

## Amser adeiladu

Amser yw un o'r elfennau mwyaf hanfodol er mwyn cael boddhad wrth greu ffau gymhleth. Mae'n annhebygol y bydd plant yn ymdrechu i adeiladu unrhyw fath o ofod os ydyn nhw'n gwybod na fydd ganddyn nhw ddigon o amser i'w ddefnyddio na chwarae ynddo ac o'i gwmpas, gan ei wneud yn lle arbennig iddyn nhw eu hunain. Felly, os na allwch ddarparu mynediad di-dor o'r ardaloedd dan do i'r awyr agored, ceisiwch sicrhau bod y plant yn cael cyfnodau hir y tu allan bob dydd/yn ystod pob sesiwn ac y gallan nhw ddychwelyd at y chwarae yn ystod y dydd/sesiwn ac, os yw hynny'n bosibl, dros yr ychydig ddiwrnodau canlynol. Mae plant wrth eu bodd yn addurno'r mannau y maen nhw'n eu creu: gwnewch yn siŵr bod deunyddiau addas a chyffrous ar gael y tu allan iddyn nhw wneud hyn, neu dywedwch wrthyn nhw y gallan nhw fynd i mewn i nôl unrhyw beth sydd ei angen arnyn nhw.

Mae'n bwysig cofio bod plant yn datblygu ymdeimlad o berthyn pan fyddan nhw'n cael cyfleoedd i ymgysylltu'n agos â'u hamgylchedd ffisegol a chreu mannau sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw.

**Heriau adeiladu ffau**

- Allwch chi adeiladu ffau i'ch cadw'n sych yn y glaw? Pa fath o ddeunyddiau fydd eu hangen arnoch chi?
- Sut y gallwch chi gysgodi rhag yr haul? A fydd yn rhaid ichi symud eich ffau drwy gydol y dydd?
- Allwch chi weithio gyda'ch gilydd i adeiladu stryd o ffeuau? Adiwch y rhifau a'r arwyddion a mwynhewch addurno eich tŷ neu siop.
- Allwch chi adeiladu ffau sy'n ddwy fetr o uchder? Beth yw'r ffordd orau o'i mesur? Sut allwch chi ei hadeiladu'n ddiogel?

**"Mae chwarae yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm a ddylai fod yn llawn hwyl ac yn ysgogol. Mae chwarae sydd wedi'i gynllunio'n dda yn helpu plant i feddwl a gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas. Mae'n datblygu ac yn estyn eu sgiliau ieithyddol a chyfathrebu, mae'n eu galluogi i fod yn greadigol, i ymchwilio ac archwilio gwahanol ddefnyddiau ac mae'n rhoi cyfleoedd iddyn nhw arbrofi a rhagfynegi deilliannau."**

Chwarae/Dysgu Gweithredol (Llywodraeth Cymru, 2008)

## Cilfachau a chuddfannau

Ydych chi'n gweld bod eich plant yn hoffi mynd i mewn i fannau bach, y tu ôl i'r sied storio, er enghraifft, nad ydych am iddyn nhw fynd i mewn iddyn nhw? Ydych chi'n cofio mwynhau adeiladu ffau fel plentyn? Pan fydd plant yn chwarae, daw'n amlwg bod mannau bach, allan o olwg oedolion, yn bwysig iddyn nhw.

## Beth sydd gan gilfachau a chuddfannau i'w gynnig i blant?

Mae'n ymddangos fel pe bai gan blant angen seicolegol am fannau a chilfachau a chuddfannau bach sy'n rhoi preifatrwydd, annibyniaeth ac ymdeimlad o agosatrwydd cymdeithasol iddyn nhw yn yr awyr agored a gall y mannau hyn arwain at fath gwahanol iawn o chwarae i'r hyn sydd fel arfer ar gael mewn lle mawr sydd wedi'i gynllunio ar gyfer chwarae mwy gweithredol. Er y gall yr awyr agored fodloni awydd plant i symud a chwarae'n nwyfus, mae angen tawelwch a llonyddwch arnynt hefyd. Felly, mae'n bwysig eich bod yn creu mannau tawelach, mwy meddal yn yr amgylchedd awyr agored, gan gyfleu negeseuon am y math o chwarae sy'n briodol drwy'r cynllun, yr adnoddau a'r canllawiau.

Mae'n bwysig sicrhau bod y mannau hyn ar gael yn yr awyr agored ac mae'n bwysig helpu'r plant i'w defnyddio. Pan fydd plant yn cael cyfleoedd i ymgysylltu'n agos â'u hamgylchedd ffisegol a chreu mannau sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw, mae hynny'n cael effaith

gadarnhaol ar eu lles a'u hymdeimlad ohonyn nhw eu hunain sy'n datblygu o hyd.



Gall teimlo eu bod allan o olwg oedolion a phlant eraill roi ymdeimlad gwerthfawr o breifatrwydd ac annibyniaeth i blant a rhoi cyfle iddyn nhw edrych ar y byd mawr o'u cwmpas. Yn aml, mae'n bosibl ichi roi'r ymdeimlad hwn o fod yn gudd i blant a chadw llygad arnyn nhw at ddibenion diogelwch ar yr un pryd. Drwy sicrhau bod cuddfannau mor ddiogel â phosibl, gallwch gymryd cam yn ôl a hwyluso chwarae annibynnol a ysgogir gan y plentyn.

## Sut gallwn ni ddatblygu cilfachau a chuddfannau yn yr awyr agored?

Mae dwy ffordd o wneud hyn. Y ffordd gyntaf, a'r cyflymaf, yw darparu amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau rhydd a fydd yn galluogi eich plant i greu eu cilfachau a'u cuddfannau eu hunain drwy adeiladu strwythurau tebyg i ffeuau. Bydd hyn yn eich helpu i wneud y gorau o'r ardal awyr agored sydd gennych ar hyn o bryd, oherwydd gall ffeuau gael eu hadeiladu ar borfa, tywod neu darmac agored. Gallwch roi bachau a gosodiadau ar waliau neu ffensys fel pwyntiau angori ar gyfer rhaffau heb amharu ar hyblygrwydd y gofod.

Yr ail ffordd, a'r ffordd tymor hwy, yw gwerthuso eich ardal awyr agored a cheisio datblygu mannau posibl i greu cilfachau a chuddfannau naturiol. Gallwch ychwanegu planhigion, sgriniau, ffensys, tai bach twt a darnau mawr o gyfarpar chwarae er mwyn rhoi cyfleoedd i blant greu mannau maint plant. Os nad oes gennych le yn yr awyr agored i blannu llwyni, ystyriwch ychwanegu potiau mawr ar olwynion – un o fanteision y rhain yw y gallwch eu symud i greu 'ardaloedd dysgu"[7].

Drwy ddarparu amrywiaeth eang o ddeunyddiau rhydd, gallwch annog merched i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys mwy o waith adeiladu a galluogi bechgyn i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu gan adael i'w gweithgareddau chwarae ddatblygu heb amharu gormod ar y rhai o'u cwmpas.

**"Mae'n aml yn bosibl gwneud i blant deimlo eu bod ynghudd a pharhau i gadw llygad ar bethau at ddibenion diogelwch."**

Cyfieithiad o Early Years Outdoors: Nooks and Crannies: secret spaces and places (Learning through Landscapes, 2005)

7 Mae rhagor o ganllawiau ar greu ardaloedd dysgu i'w gweld yn *Y camau cyntaf yn yr awyr agored* (2010).

# Celf a chreadigrwydd



Mae celf yn rhoi cyfleoedd hollbwysig i blant fynegi eu creadigrwydd a chyfleu eu syniadau i eraill. Gall feithrin hunanhyder plant a'u helpu i ddatblygu ymdeimlad cryf ohonyn nhw eu hunain fel unigolion, yn ogystal â datblygu eu gwybodaeth ymarferol, eu helpu i ddysgu sut i ddefnyddio eu barn a'u dychymyg, a chysylltu ag eraill. Mae cymryd amser i archwilio celf yn yr awyr agored yn rhoi dimensiwn ychwanegol ac arbennig i blant – gan roi uchder, adnoddau a gofod iddyn nhw arbrofi â nhw.

## Dechrau arni

Mae celf a'r awyr agored yn bartneriaid naturiol. Gall yr awyr agored gynnig gofod unigryw i blant arbrofi ynddo a, thrwy ddefnyddio'r amgylchedd ei hun, amrywiaeth eang o ysgogiadau cyffrous. Bydd gwerthfawrogi'r hyn sydd gan yr awyr agored i'w gynnig yn eich helpu i feddwl ar raddfa fwy. Mae pecyn celf yn rhan bwysig o'r Cyfnod Sylfaen yn yr awyr agored.

Darparwch baent, sialciau, rholiau mawr o bapur, defnyddiau a chyfarpar gwneud marciau fel rholeri, brwshys, sbyngau, sgrynshys bath a photeli chwistrellu. Hefyd, bydd angen rhywle arnoch i sychu ac arddangos gwaith y plant, fel lein ddillad a phegiau, wal neu ffens. Bydd camera yn ddefnyddiol hefyd er mwyn recordio prosesau creadigol y plant yn ogystal â'r canlyniadau gorffenedig.

**"Dylai plant archwilio ystod eang o ysgogiadau, datblygu eu gallu i gyfathrebu a mynegi eu syniadau creadigol, eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain a myfyrio ar eu gwaith."**

Datblygiad Creadigol (Llywodraeth Cymru, 2008)

## Gwneud llanast a gweithio ar raddfa fawr

Meddyliwch am ddefnyddio deunyddiau a thechnegau a fyddai'n anaddas dan do. Er enghraifft, gallwch dynnu llun gyda mwd a'i fowldio. Os oes gennych fwy o le, gallwch greu cerfluniau anferth o hen bethau neu beth am gasglu deunyddiau naturiol i greu darn y gallwch ei adael y tu allan er mwyn ychwanegu at eich ardal. Mae paentiau gwan mewn poteli chwistrellu yn hawdd ac yn hwyl i'w defnyddio – rhowch gynnig ar greu lluniau anferth ar gynfas gwely sydd wedi'i hongian dros ffensys. Gallwch ddefnyddio'r cynfasau hyn wedyn i adeiladu ffeuau.

## Cydweithio

Yn naturiol, mae prosiectau celf mawr sy'n annog ac yn cynnwys grwpiau neu hyd yn oed y lleoliad/ysgol i gyd yn galw am gydweithredu, ac yn helpu i ddatblygu sgiliau trafod a chyfranogi'r plant yn ogystal â meithrin hyder ac ymdeimlad o berthyn. Bydd prosiectau y gall pawb weithio arnyn nhw gyda'i gilydd ac sy'n cyfoethogi eich ardal awyr agored – fel murluniau a/neu lwybrau teils mosaig – yn ffordd o ychwanegu arddangosiadau parhaol at eich ardal.

## Chwilio am ysbrydoliaeth

Cyn dechrau ar ddarn o waith celf, defnyddiwch weithiau gan artistiaid profiadol i ysbrydoli'r plant.



**Cerfluniau** – edrychwch ar waith gan Robert Thomas, Barbara Hepworth, Andy Goldsworthy a Henry Moore. Anogwch y plant i feddwl am ffurf, gwead, lliwiau a deunyddiau.

**Lliw** – mae gweithiau Kandinsky a Rothko yn fannau cychwyn da a bydd edrych ar waith artistiaid Cymreig fel Stan Rosenthal a Martyn Evans yn cefnogi'r Cwricwlwm Cymreig. Ceisiwch fynd â'r plant allan ar ddiwrnodau gwlyb er mwyn edrych ar gymysgu lliwiau.

**Haniaethol** – mae paentiadau Pollock yn fan cychwyn da ar gyfer gweithiau celf mawr y gall pawb fwynhau eu creu. Anogwch y plant i arbrofi gydag amrywiaeth o adnoddau ac arsylwi'r canlyniadau.

# Cerddoriaeth a symudiadau

Mae cerddoriaeth a'r awyr agored yn gyfuniad grymus. Mae deall gwerth cerddoriaeth – dan do ac yn yr awyr agored – yn rhan o waith pob ymarferydd.



Mae cerddoriaeth yn hollbwysig er mwyn helpu plant i ddatblygu eu holl synhwyrau. Mae plant yn canu caneuon a rhigymau yn ddigymell wrth chwarae a gall ymarferwyr sy'n ymateb i'r cyfleoedd dysgu naturiol hyn ddatblygu eu dealltwriaeth a'u mwynhad o gerddoriaeth. Mae plant yn archwilio ac yn gwerthfawrogi synau, cerddoriaeth, rhythm a phatrwm yn hapus, gan ddatblygu eu sgiliau gyda chymorth oedolion. Mae'r awyr agored yn lle gwych i ganu, ymateb i gerddoriaeth a chyfansoddi cerddoriaeth yn ogystal ag archwilio uchder sain a gweithio mewn ffyrdd creadigol. Mae cerddoriaeth awyr agored hefyd yn rhoi mwynhad, beth bynnag fo'r tywydd.

Defnyddiwch offerynnau parod pan gall oedolyn ymgysylltu â'r plant ar ryw lefel. Efallai yr hoffech greu blwch adnoddau cerdd gyda lluniau wedi'u lamineiddio o'r offerynnau a'i gadw mewn man sych nad yw'n rhewi. Dylech gynnwys y canlynol:

- tambwrîn
- clafiau (neu flocyn pren o ryw fath)
- maracas
- guiro
- clychau jingl a chlychau Indiaidd
- triongl
- drymiau Djembe
- amrywiaeth o chwibanau

ac offerynnau â thraw fel:

- seiloffon
- glockenspiel
- set o farrau clych.

**“Wrth ddefnyddio offerynnau cerdd gwahanol (wedi'u gwneud â llaw ac yn fasnachol) gall plant ddyfeisio a chynrychioli'r synau a glywir yn yr amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored.”**

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (Welsh Government, 2008)

## Cerddoriaeth o hen bethau

Archwiliwch pa fath o synau y gallwch eu gwneud yn yr awyr agored drwy ddefnyddio pethau y gallwch ddod o hyd iddyn nhw ar y safle neu drwy addasu hen bethau. Gwnewch offerynnau sy'n debyg i offerynnau cerdd go iawn. Sylwch sut a ble mae'r deunyddiau rydych yn eu defnyddio yn effeithio ar y synau a'r traw. Mwynhewch berfformio a/neu recordio darn cerddorol. Dyma rai awgrymiadau ar gyfer gwneud cerddoriaeth o hen bethau.



- **Drymiau** – dysglau plannu mawr (wedi'u gorchuddio â thâp trwchus), casgenni dŵr, biniau, gorchuddion draeniau, potiau a sosbenni, sŵn traed (rhedeg, stompio, cerdded), peli'n bownsio.
- **Seiloffon** – ffensys (tynnwch ddarn o bren ar hyd y paneli), potiau plannu o feintiau gwahanol, pyst gôl, poteli wedi'u llenwi â gwahanol faint o hylif.
- **Siglwyr** – potiau plannu/caniau/poteli'n llawn cerrig bach/rhisgl, graean/tywod.
- **Clychseiniau** – gwiail bambŵ, pibellau neu hen gyllyll a ffyrc – gwnewch dyllau yn y caniau a'r pibellau a dewch o hyd i fan addas i'w hongian.
- **Ffyn glaw** – hen bibellau draenio – llenwch y pibellau â gwrthrychau o wahanol faint hyd nes ichi greu'r effaith sy'n swnio debycaf i law.

Peidiwch ag anghofio y gall byd natur gynnwys ei offerynnau ei hun. Anogwch y plant i gyfansoddi darnau gan ddefnyddio'r synau y maen nhw'n eu clywed o'u cwmpas, wedi'u recordio gan ddefnyddio offer TGCh.

## Llwybrau sŵn

Bydd llwybrau sŵn yn cefnogi datblygiad creadigol plant ac maen nhw hefyd yn ffordd dda o annog plant i symud o gwmpas ac archwilio pob rhan o'r ardal awyr agored. Gwnewch lwybr trysor cerddorol gan ddefnyddio synau offerynnau gwahanol, caneuon neu synau o fyd natur. Ceisiwch gyfuno'r llwybr â stori, h.y. os hoffech lunio stori am frogaod, dechreuwch drwy guddio amrywiaeth o offerynnau gan gynnwys rhai a allai wneud synau broga. Gofynnwch i'r plant geisio dod o hyd iddyn nhw, rhoi cynnig arnyn nhw a phenderfynu pa un sy'n gwneud y sŵn broga gorau. Gall plant ddilyn lluniau neu gliwiau llafar gan oedolyn.

**'Music is a more potent instrument than any other for education.'**

Plato

## Astudiaeth achos



Roedd plant a staff yr ysgol fabanod a meithrin wedi cael digon ar eu maes chwarae tarmac am nad oedd lleoedd naturiol i chwarae a dysgu. Cynhaliodd cyngor yr ysgol ymgynghoriad â gweddill y plant, gan lunio holiaduron, creu 'blwch syniadau' a chynnal gwasanaethau i gasglu barn pawb. Cytunwyd bod angen i'r ysgol ddatblygu gardd gyda llawer o blanhigion diddorol ac, yn bwysicaf oll, ardal o laswellt.

Gofynnodd y plant i un o'u cynorthwywyr addysgu talentog i'w helpu i lunio cynlluniau yn dangos sut y gallai'r ardal edrych ar ôl iddi gael ei gorffen a datblygodd y staff eu syniadau eu hunain drwy fynd ar rai diwrnodau hyfforddi ar ddysgu yn yr awyr agored. Ar ôl cwblhau'r gwaith, cafodd y plant gyfle i ychwanegu eu pethau eu hunain gan blannu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain y maen nhw'n mwynhau eu cynnwys ym mhrydau cinio'r ysgol a chlybiau coginio yn ogystal â'u gwerthu i rieni.

Gan adeiladu ar eu llwyddiant, roedd y staff yn awyddus i ddatblygu'r safle ymhellach er mwyn cefnogi gwaith dysgu ar draws y cwricwlwm. Unwaith eto, ymgynghorodd cyngor yr ysgol â'r plant a siarad â chynllunydd meysydd chwarae. Fodd bynnag, ar ôl penderfynu bod y cynlluniau'n rhy fanwl ac y bydden nhw'n llenwi'r gofod, gweithiodd y staff a'r plant gyda'i gilydd i lunio cynlluniau a fyddai'n gweddu i'r hyn roedden nhw am ei wneud y tu allan.

Cyfrannodd y rhieni adnoddau ar gyfer blychau cit sydd bellach yn rhan o'r ddarpariaeth barhaus hyblyg. Darparodd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon arian ar gyfer siediau ac, fel ysgol eglwysig, ardal fyfyrio ar ffurf gasebo.

Mae'r ysgol bob amser yn chwilio am gyfleoedd i ddysgu a chwarae yn yr awyr agored ac mae wrthi'n datblygu ardaloedd awyr agored bach i hwyluso agweddau gwahanol ar y Meysydd Dysgu.

"Mae dysgu yn yr awyr agored yn rhan annatod o'n cwricwlwm ac mae'n rhan o'n holl gynlluniau. Rydym yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i archwilio'r byd o'u cwmpas ac rydym yn sicrhau ein bod yn cynnwys yr ardaloedd awyr agored ymhob un o'r Meysydd Dysgu. Mae sgiliau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer y Meysydd Dysgu, addysg grefyddol a'r FfLlRh yn cael eu harddangos ar y wal yn ein hardal awyr agored."

Nid yw'r ymarfer na'r ddarpariaeth awyr agored wedi datblygu dros nos; mae'n broses barhaus gyda'r staff, y plant, y llywodraethwyr, y rhieni a'r gymuned yn gweithio'n ddiwyd i ddatblygu ardal awyr agored ddiogel, difyr ac ymarferol, sy'n rhoi cyfle i'r plant ddysgu o Feysydd Dysgu cynhwysol, uchelgeisiol a heriol sy'n dathlu ac yn gwerthfawrogi dysgu yn yr awyr agored.

# Adeiladu ffeuau



| ✓ | Eitemau |
|---|---|
| | Tarpolin. |
| | Teils carped/darnau o garped (mae tiwbiau mewnol cardbord yn dda hefyd). |
| | Blancedi – mae blancedi picnic â chefn plastig yn ddefnyddiol. |
| | Cynfasau mawr a llenni. |
| | Llenni cawod. |
| | Defnyddiau tryloyw. |
| | Pegiau a basgedi. |
| | Defnydd gingham. |
| | Defnydd cuddliw. |
| | Basgedi (â dolenni), bagiau. |
| | Cês a/neu fagiau cefn. |
| | Gwiail bambŵ (3 troedfedd neu fwy). |
| | Tâp masgio, tâp cryf arall (y gellir eu rhwygo). |
| | Amrywiaeth o raffau. |
| | Hongiwr trowsusau pren â chlipiau (hongian o goeden/ffens gan glipio'r defnydd iddo). |
| | Llinyn, siswrn. |
| | Tortshys. |
| | Ymbaréls. |
| | Pwlïau. |
| | Rhwydi cargo. |
| | Pegiau i'w rhoi yn y ddaear. |

# Deunyddiau naturiol



| ✓ | Eitemau |
|---|---|
| | Haenau o foncyffion. |
| | Toriadau pren o wahanol siapiau a meintiau. |
| | Brigau a broc môr. |
| | Ffyn bambŵ neu ymylon lawntiau. |
| | Bag bach o doriadau pren neu frics pren. |
| | Amrywiaeth o fasgedi a/neu bowlenni pren. |
| | Cregyn a gwymon. |
| | Cerrig bach, darnau o lechi, graean. |
| | Moch coed. |
| | Cerrig bach sgleiniog. |
| | Cnapiau gwydr llyfn. |
| | Siapiau gwiail – sêr, cylchoedd ac ati. |
| | Defnyddiau naturiol fel hesian, sidan crai, cotwm a mwslin. |
| | Dail anarferol. |
| | Sglodion rhisgl. |
| | Hadau a ffrwythau coed fel concyrs, mes a phlisg hadau sych. |
| | Clai sy'n sychu'n naturiol. |
| | Siarcol. |
| | Raffia. |
| | Papurau wedi'u gwneud â llaw. |

# Celf



| ✓ | Eitemau |
|---|---|
| | Rholiau a dalenni mawr o bapur. |
| | Hambyrddau plastig (hambyrddau bwyd sy'n cael eu defnyddio at ddibenion eraill). |
| | Cynfasau/darnau mawr o ddefnydd cotwm plaen. |
| | Paent wedi'i gymysgu yn barod – coch, melyn, glas, du a gwyn. |
| | Blociau paent. |
| | Lliwiau bwyd. |
| | Brwshys paent i blant. |
| | Sbyngau, sgrynshys bath. |
| | Brwshys, rholeri a phadellau addurno. |
| | Sialciau – maint maes chwarae. |
| | Siartiau lliw paent. |
| | Tâp gludiog dwyochrog. |
| | Pennau ffelt trwchus. |
| | Gwellt. |
| | Potel chwistrellu dŵr/poteli hylif golchi llestri. |
| | Clai sy'n sychu'n naturiol. |
| | Hen lwyau a bwcedi ar gyfer celf mwd. |
| | Llinyn, gwlân, glanhawyr pibell, plu. |
| | Blwch cario/offer i blant. |
| | Glud PVA a lledaenwyr. |
| | Papurau crêp a sidan. |
| | Pegiau a lein ddillad. |

# Archwilio dŵr



| ✓ | Eitemau |
|---|---|
| | Pibell ddŵr ar rîl gyda gwahanol fathau o chwistrellau. |
| | Pibellau dŵr o wahanol hyd (a gwahanol drwch hefyd). |
| | Cafnau a phibelli wedi’u torri i wahanol hyd. |
| | Darnau ar gyfer cafnau fel hoprau a ffitiadau siâp ‘Y’. |
| | Ymbaréls (o wahanol faint). |
| | Twndisau, jygiau, cwpanau a bwcedi. |
| | Llwyau a lletwadau mesur. |
| | Gefeiliau bach a mawr. |
| | Rhidyllau a cholandrau. |
| | Poteli chwistrellu (hen boteli nwyddau cartref, wedi'u glanhau'n drylwyr). |
| | Hen boteli plastig (poteli siampŵ, hylif golchi llestri ac ati). |
| | Poteli llaeth 1l, 2l, a 4l gyda'r caeadau. |
| | Potel fawr o beiriant oeri dŵr. |
| | Brwshys addurnwr o wahanol feintiau. |
| | Rholeri a hambyrddau addurnwr. |
| | Brwshys sgrwbio ac ewinedd. |
| | Adnoddau cysylltu fel tâp cryf, llinyn, clymau cebl, bandiau elastig cryf. |
| | Secwins, lliwiau bwyd. |
| | Pibedau a diferyddion. |
| | Llestri dal ciwbiau rhew. |
| | Tiwbiau eisin ar gyfer cacennau (y math sydd â phlymiwr). |
| | Sbyngau, sgrynshys bath, lwffâu. |
| | Caniau dŵr. |
| | Tarpolin (i atal y glaswellt rhag mynd yn rhy fwdlyd, os bydd angen). |

# Cerddoriaeth a symudiadau



| ✓ | Eitemau |
|---|---|
| | Darnau a stribedi o wahanol fathau o ddefnyddiau (ysgafn, sgleiniog ac ati). |
| | Sgarffiau ysgafn mewn amrywiaeth o batrymau a lliwiau. |
| | Rhubanau o wahanol liwiau, hyd a thrwch. |
| | Bandiau gwallt bach a meddal (er mwyn clymu sgarffiau a rhubanau i'w rhoi ar yr arddwrn). |
| | Plu (o wahanol feintiau, lliw ac ati). |
| | Swigod. |
| | Clychau arddwrn, maracas, castanets. |
| | Drwm a churwr llaw. |
| | Hen gryno ddisgiau (i'w dal er mwyn adlewyrchu golau). |
| | Peli cyffyrddadwy. |
| | Papur crêp (i'w dorri yn stribedi hir). |
| | Parasiwt bach/cynfas. |
| | Defnydd elastig $2m^2$. |
| | Bagiau ffa. |
| | Balwnau. |
| | Cylchoedd, coetiau. |
| | Pompoms. |
| | Cerrig camu neu gellir defnyddio powlenni golchi llestri wedi'u troi ben i waered. |
| | Wy a llwy (llwyau pren a pheli bach). |
| | Barcutiaid poced. |
| | Rhaffau sgipio. |
| | Cryno ddisgiau/MP3 cerddorol sy'n cynnwys amrywiaeth o gerddoriaeth gan gynnwys cerddoriaeth werin Gymreig, darnau clasurol a cherddoriaeth amlddiwylliannol. |

# Llythrennedd



| ✓ | Eitemau |
|---|---|
| | Clipfyrddau. |
| | Pensiliau, creonau, sialciau. |
| | Byrddau gwyn a marcwyr. |
| | Cardiau fflach ar gyfer synau cychwynnol. |
| | Llythrennau cyffyrddadwy. |
| | Brwshys paent bach a photiau bach (i'w defnyddio gyda dŵr neu fwd dyfrllyd). |
| | Llythrennau mawr a/neu wedi'u lamineiddio. |
| | Siapiau dail wedi'u lamineiddio (defnyddiwch y rhain ar gyfer gweithgareddau ffurfio geiriau a brawddegau). |
| | Dail wedi'u lamineiddio gydag enwau'r plant yn y lleoliad/ysgol. |
| | Pypedau. |
| | Meicroffon adlais. |
| | Casgliad bach o wrthrychau anarferol (ysgogiadau ar gyfer amser stori ac amser cylch). |
| | Tiwb ar gyfer peiriant sychu dillad. |
| | Cwpanau/caniau a llinyn. |
| | Pegiau a lein ddillad. |
| | Cardiau fflach yn dangos geiriau cyffredin. |
| | Detholiad o bapurau. |
| | Gwrthrychau synau cychwynnol. |

Peidiwch ag anghofio cynnwys blwch llyfrau fel rhan o adnoddau eich darpariaeth barhaus. Dewiswch lyfrau ffuglen sy'n adlewyrchu eich pynciau yn ogystal â storïau wedi'u lleoli yn yr awyr agored. Dylai llyfrau ffeithiol gefnogi ysbryd ymholi'r plant a pheidiwch ag anghofio ychwanegu rhai llyfrau cyfeirio fel y gall yr oedolion yn y lleoliad/ysgol ateb rhai o'r cwestiynau y bydd y plant yn siŵr o'u gofyn am yr hyn y maen nhw wedi'i ddarganfod yn yr awyr agored.

# Mathemateg ystyrlon



| ✓ | Eitemau |
|---|---|
| | Rhifau cyffyrddadwy a/neu wedi'u lamineiddio – amrywiaeth o feintiau, lliwiau a gweadau. |
| | Symbolau mathemategol wedi'u lamineiddio. |
| | Dail rhif wedi'u lamineiddio (hawdd eu gwneud o gerdyn). |
| | Bagiau ffa. |
| | Cylchoedd. |
| | Tapiau mesur/prennau mesur. |
| | Dail gwag wedi'u lamineiddio (i gefnogi gweithgareddau brawddegau rhif). |
| | Cownteri naturiol (concyrs, mes, moch coed, cerrig bach). |
| | Cyfrifianellau solar. |
| | Sialciau, pensiliau, creonau. |
| | Sgitls/conau. |
| | Rhifau cyffyrddadwy. |
| | Darnau arian plastig a darnau arian go iawn. |
| | Fframiau dod o hyd i siapiau. |
| | Clipfyrddau. |
| | Dis. |
| | Numicon. |
| | Lein ddillad a phegiau. |
| | Peli llinyn. |
| | Drychau plastig bach (i ymchwilio i gymesuredd). |
| | Watshis amseru. |
| | Set fach o gloriannau a phwysau. |

# Ditectifs natur



| ✓ | Eitemau |
|---|---|
| | Chwyddwydrau. |
| | Offer gwylio pryfed. |
| | Cwpanau/potiau plastig gwyn. |
| | Hambyrddau plastig gwyn, bas. |
| | Ysbienddrychau. |
| | Microsgop. |
| | Gefeiliau bach. |
| | Byrddau gwyn/marcwyr. |
| | Drychau plastig bach. |
| | Cardiau adnabod bwystfilod bach. |
| | Magnetau ac eitemau magnetig bach. |
| | Rhwydi dal berdys a rhwydi pryfed mwy o faint. |
| | Thermomedrau sy'n addas i blant. |
| | Prennau/tapiau mesur. |
| | Llun o'r awyr neu fap o'r ardal awyr agored. |
| | Tryweli/ffyrch bach. |
| | Bwcedi/hen dwbâu. |
| | Labeli planhigion/coesau lolipop. |
| | Cardiau/llyfrau adnabod adar/dail/blodau/planhigion. |

# Deunydd darllen pellach, cysylltiadau a dolenni defnyddiol

## Deunydd darllen pellach

*Dysgu yn yr Awyr Agored: arfarnu dysgu yn yr awyr agored i blant o dan bump oed yn y Cyfnod Sylfaen* (Estyn, 2011)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/221621.4/Dysgu%20yn%20yr%20agored:%20%20arfarnu%20dysgu%20yn%20yr%20awyr%20agored%20i%20blant%20o%20dan%20bump%20oed%20yn%20y%20Cyfnod%20Sylfaen%20-%20Medi%202011/?navmap=30,163,

*Y Camau Cyntaf yn yr Awyr Agored* (Llywodraeth Cymru ac LtL Cymru, 2010)
www.ltl.org.uk/wales/FirstStepsOutdoors.php

*Every Child Outdoors* (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, 2010)
www.rspb.org.uk/Images/everychildoutdoors_tcm9-259689.pdf

*Childhood and Nature: Design principles for educators by David Sobel*
(Stenhouse Publishers, 2008)

*Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau allweddol ynghylch yr amgylchedd (dan do/awyr agored)* (2014)
www.wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-foundation-phase/?skip=1&lang=cy

## Cysylltiadau a dolenni defnyddiol

**Council for Learning Outside the Classroom**
Elusen sy'n hyrwyddo dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac sy'n annog pobl ifanc i fynd allan.
www.lotc.org.uk

**Growing Schools**
Mae gan Growing Schools wefan sydd wedi'i llunio i helpu athrawon ac ymarferwyr i ddefnyddio'r 'ystafell ddosbarth awyr agored' fel adnodd ar draws y cwricwlwm i ddysgwyr o bob oed.
www.growingschools.org.uk

**Learning through Landscapes**
Learning through Landscapes yw'r elusen sy'n ymrwymedig i wella profiadau chwarae a dysgu awyr agored i blant yn y DU. Mae'n darparu cyngor a chymorth i leoliadau blynyddoedd cynnar/ysgolion ac mae ganddo wefan gynhwysfawr.
www.ltl.org.uk

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau ledled Cymru i gynnig ymweliadau â choetiroedd lleol, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Mae'n cynnig sesiynau hyfforddi i helpu ymarferwyr, arweinwyr grwpiau ac eraill i ddefnyddio eu coetiroedd lleol er mwyn dysgu ac yn hwyluso sesiynau Ysgolion Coedwig ar ei dir ei hun.
www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-8KER42

**Chwarae Cymru**
Mae Chwarae Cymru yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o angen a hawl plant a phobl ifanc i chwarae a hyrwyddo arfer da ar bob lefel yn y broses gwneud penderfyniadau ac ymhob man lle gallai plant chwarae. Am gyngor penodol i leoliadau/ysgolion gan gynnwys canllawiau ar ddefnyddio tir y lleoliad/ysgol at ddibenion chwarae y tu allan i oriau addysgu, ewch i'w wefan.
www.chwaraecymru.org.uk/cym/ysgolion

**Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol**
Mae'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yn helpu lleoliadau/ysgolion i ddatblygu gerddi a mannau tyfu. Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael ar ei gwefan.
www.rhs.org.uk

**Coed Cadw**
Coed Cadw yw'r elusen sy'n ymrwymedig i warchod coetiroedd. Mae'n helpu drwy blannu coed, amddiffyn coedwigoedd ac ysbrydoli pobl i fwynhau'r natur sydd o'u cwmpas.
Mae llawer o awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ac adnoddau i blant ifanc ar wefan Ditectifs Natur.
www.naturedetectives.org.uk

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i Learning through Landscapes am ddarparu'r delweddau a'r adnoddau sy'n ategu'r canllawiau yn y ddogfen hon.

www.ltl.org.uk

Hoffem hefyd fynegi ein diolch i:

Ysgol Gynradd Cymer Afan

Ysgol Babanod Melin

Ysgol Gynradd Mount Stuart

Ysgol Babanod Abaty Nedd

Cylch Chwarae School Lane

Ysgol Babanod Llanfairfechan

Tîm ymgynghori'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg.